



## **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Aseiad Effaith Integredig**

Bwriedir i'r aseiad effaith integredig hwn helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau effeithiol ar sail gwybodaeth, gan sicrhau cydymffurfiaeth ag amrywiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Ymgynghori Statudol yn erbyn Athrawiaeth Disgwyliad Dilys ac Egwyddorion Gunning

**NODER:** Dim ond os bydd cynigion yn rhai strategol eu natur neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae angen llenwi Adran 3 Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Gweler tudalen 6 o Ganllawiau Llywodraeth Cymru, **Paratoi ar gyfer cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.**

### **1. Manylion y Cynnig**

**Swyddog Arweiniol:- Andrea West / Lisa Thomas**

**Pennaeth Gwasanaeth:- Sue Richards**

**Maes Gwasanaeth ac Adran:- Cymunedau Dysgu Cynaliadwy**

**Dyddiad:- Medi 2023**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gellir hefyd gofyn am y wybodaeth mewn fformatau ac ieithoedd eraill, yn ogystal ag ar ffurf copi caled. Cysylltwch â ni ar 01443 864817 i drefnu hyn.

**Beth yw'r cynnig sy'n cael ei asesu?** *Rhowch fanylion cryno am y cynnig a dolen i unrhyw adroddiad neu ddogfennau perthnasol.*

**Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy  
Cynnig Band B  
Ysgol Y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf**

---



Mae angen i ysgolion yng Nghymru fod mewn cyflwr da ac yn addas ar gyfer darparu addysg. Mewn rhai achosion, gall ysgolion gael eu moderneiddio, eu hatgyweirio, eu hadnewyddu, eu hymestyn neu eu hailadeiladu'n rhannol i fodloni'r safonau sydd eu hangen ar gyfer addysgu a dysgu cyfoes. Fodd bynnag, nid yw rhai ysgolion presennol yn y lle iawn bellach ac mewn achosion o'r fath, efallai y byddwn ni'n cynnig ysgolion newydd neu newidiadau i ysgolion presennol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) yn anelu at barhau i godi safonau ysgolion a gwella ansawdd yr amgylchedd dysgu i greu ysgolion addas i'r diben ar gyfer yr 21ain ganrif a rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn yng Nghaerffili. Mae'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn rhaglen buddsoddi cyfalaf strategol fawr, hirdymor. Mae'n cael ei hariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a'i nod yw creu cenhedlaeth o ysgolion yr 21ain ganrif yng Nghymru.

Mae Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf wedi'u nodi fel prosiectau blaenoriaeth yn rhaglen Band B Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

### **Sefyllfa Bresennol:**

#### Ysgol y Lawnt

- Cyfrwng Cymraeg
- Ysgol gynradd gymunedol
- Capasiti o 262 gan gynnwys darpariaeth gofal plant a meithrinfa.
- 18.4% o ddisgyblion PYDd, 15.6% ag AAA
- Wedi'i lleoli ar safle 1.4 hectar yn Rhymni heb unrhyw opsiwn i ehangu.
- Mae'r ysgol yn gweithredu o 1 prif adeilad a nifer o adeiladau modiwlaidd parod. Sefydlwyd y prif adeilad, rhestredig gan CADW, yn wreiddiol fel Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg yn 1900, gan agor yn 1955 fel yr Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg bresennol.

#### Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf

- Cyfrwng Saesneg
- Ysgol gynradd gymunedol
- Capasiti o 210, sy'n cynnwys darpariaeth feithrin.
- 44.1% o ddisgyblion PYDd, 12.7% ag AAA
- Wedi'i lleoli o fewn safle 0.98 hectar yn Rhymni, ac yn ffinio'n agos ag eiddo preswyl.
- Yn meddiannu 2 Adeilad, bloc lau dros 2 lawr heb lifft

### **Cynnig:**

Mae'r Cyngor yn dymuno gwneud 'newid rheoledig' i ysgol a gynhelir yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

- Adeoli Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf i safle newydd pwrpasol gyda chyfleusterau a rennir.



Cynigir y bydd adeilad pwrpas deuol newydd yn ymgorffori'r ddwy ysgol ac yn parhau i ddarparu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Rhaid pwysleisio y byddai'r ddwy ysgol yn aros yn endidau annibynnol, gyda'r dalgylchoedd presennol yn aros yr un fath a phob ysgol yn meddiannu eu hardaloedd addysgu eu hunain o fewn yr adeilad newydd.

- Bydd yr adeilad newydd arfaethedig yn cynnwys derbynfa ddwyieithog a rennir a chyfleusterau cymunedol hyblyg y gellir eu haddasu er enghraifft neuadd y gellir ei hisrannu a chegin ar wahân fel bod darpariaeth yn cael ei chyflwyno yn y cyfrwng iaith priodol ar gyfer pob ysgol. Bydd cyfluniad y cyfleusterau hyn yn cael ei ddylunio mewn modd sy'n galluogi defnydd annibynnol gan bob ysgol yn y drefn honno os oes angen er mwyn lleihau'r amharu ar weithgareddau cyfredol neu eu hagor i'w defnyddio ar y cyd er mwyn darparu cydlyniant cymunedol ehangach.
- Bydd yr adeilad newydd yn ymgorffori cyfleusterau ysgolion cynradd yn ogystal â gofal plant a darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbennig ar wahân ar gyfer pob ysgol, un gydag 8 lle ar gyfer cyfrwng Cymraeg a'r llall yn darparu 8 lle ar gyfer cyfrwng Saesneg.
- Cynigir y bydd yr adeilad ysgol newydd yn bodloni gofynion Ysgol Di-Garbon Llywodraeth Cymru.



- Er mwyn ysgogi'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg, rydyn ni'n gwybod ei bod yn fwy cynaliadwy i deuluoedd os caiff darpariaeth addysg ei hehangu yn unol â'r gofal plant sydd ar gael yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- Darparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer trochi Cymraeg, hwyluso twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg a defnydd o'r Gymraeg a fydd yn cyfrannu at gyflawni nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Bydd safle'r ysgol gynradd newydd wedi gwella gofod dysgu allanol a chyfleusterau a fydd yn darparu amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol gyda chyfleusterau'r 21ain ganrif yn canolbwyntio ar ddysgu, hunan-barch a lles yr holl ddisgyblion.
- Gan adeiladu ar y mandad Carbon Sero Net, mae ein cynnig wedi'i fframio i ddangos dyluniad arloesol a chydweithredol, gan gwmpasu'r amgylchedd adeiledig a'r dirwedd o'i amgylch mewn ffordd sy'n cyfoethogi bywyd beunyddiol disgyblion.

Bydd datblygu safle cynaliadwy, hyblyg yn galluogi:

- Gwneud y mwyaf o ofod ar gyfer ad-drefnu'r safle
  - Cyfleusterau cymunedol a rennir gan gynnwys neuadd y gellir ei haddasu, ystafell gymunedol, cegin a storfa sy'n gallu darparu'r cynnig prydau ysgol am ddim cyffredinol
  - Oes elfennol hirach
  - Cost oes gyfan is
  - Gwell gwerth am arian
- Bydd y prosiect arfaethedig yn cymryd i ystyriaeth yr awydd i annog a hwyluso defnydd cymunedol o'r adeilad cyfan, mewn partneriaeth ag Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf. Bydd y dyluniad yn ceisio cynnwys mesurau i alluogi 'parthau' diogel y gellir eu defnyddio gan y gymuned ehangach. Dylid nodi y byddai unrhyw ddarpariaethau cymunedol bresennol yn yr ysgolion presennol yn cael eu hannog i adleoli i'r safle newydd a fydd â chyfleusterau wedi'u huwchraddio.

*Er gwybodaeth, mae Cyngor Caerdydd wedi mabwysiadu dull tebyg fel rhan o'u prosiect Ysgol Gynradd Gabalfa ac Ysgol Gymraeg Glan Ceubal, lle mae'r ddwy ysgol wedi'u cydleoeli mewn adeilad gyda chyfleusterau cymunedol a rennir ac yn parhau i weithredu'n llwyddiannus fel endidau ar wahân sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg.*



## 2. Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

*(Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi "sylw dyledus" i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol; a meithrin cydberthnasau da rhwng grwpiau gwahanol). Noder y gall fod gan unigolyn fwy nag un nodwedd gwarchoddedig*

### 2a Oedran (pobl o bob oedran)

#### (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?

**Cadarnhaol** - Mae'r cynnig yn ceisio darparu cyfleusterau 21ain ganrif arloesol i ddarparu ar gyfer disgyblion 3-11 oed ac mae'n bwriadu ehangu'r ddarpariaeth a chynorthwyo defnydd cymunedol ac felly mae ganddo'r potensial i fod o fudd i bob ystod oedran.

**Cadarnhaol** - Bydd plant a phobl ifanc yn cael cymorth i siarad Cymraeg yn gynyddol fel rhan o'u trefn feunyddiol, gwella eu rhagolygon addysg a gyrfa a sylweddoli gwerth yr iaith.

**Cadarnhaol** - Bydd y cynnig hwn yn sicrhau y gellir bodloni'r galw a ragwelir yn y dyfodol yn yr ardal am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

**Cadarnhaol** - Mae safle presennol Ysgol y Lawnt wedi cyrraedd ei gapasiti o ran adeiladau ac ystafelloedd ac unrhyw ehangu pellach. Bydd ysgol newydd yn hwyluso canlyniadau addysgol cadarnhaol i blant y dyfodol yn yr ardal sy'n dymuno cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Niwtral** – Oherwydd y cyfluniad arfaethedig ar gyfer y cyfleusterau cymunedol, gellir cyfyngu ar y tresmasu ar weithgareddau yn ôl yr angen. Er enghraifft, gall clybiau brechwast presennol a darpariaeth cofleidiol sy'n gysylltiedig â'r naill ysgol neu'r llall barhau i gael eu darparu'n annibynnol ac ar yr un pryd os oes angen a thrwy ddewis iaith pob ysgol.

bryd. Mae ymarfer casglu data cychwynnol wedi'i gynnal, sy'n dangos defnydd cymunedol isel yn y naill ysgol neu'r llall ar hyn o bryd, fodd bynnag, byddwn ni'n ymgysylltu ag unrhyw grwpiau a nodir fel rhan o'r broses ymgynghori.

**Negyddol** – Mae'r cynnig yn ceisio adleoli'r ddwy ysgol i safle newydd lai na milltir o'r ysgolion presennol a allai arwain at deithio ychwanegol i ddisgyblion mewn grwpiau oedran penodol yn dibynnu ar leoliad eu cartref presennol o'r ysgol bresennol, ond rhagwelir na fydd hyn yn sylweddol yn seiliedig ar wybodaeth plotio disgyblion cyfredol.



Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd Teithio Dysgwyr. Mae'r safle a nodwyd ar gyfer adleoli Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf o fewn milltir i'r ddwy ysgol bresennol ac yn parhau i fod yn ardal Rhymni. Mae diogelwch plant yn hollbwysig ac mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu pa mor addas yw teithio i ddysgwyr rhwng y cartref a manau addysg a hyfforddiant. Bwriad yr Awdurdod yw darparu system drafnidiaeth a fydd yn ceisio sicrhau bod disgyblion yn gallu cael mynediad diogel a chysurus at eu haddysg.

**Niwtral** - Bydd Grwpiau Cymunedol Presennol Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yn cael eu hannog i adleoli i'r adeilad newydd a fydd â chyfleusterau wedi'u bryd. Mae ymarfer casglu data cychwynnol wedi'i gynnal, sy'n dangos defnydd cymunedol isel yn y naill ysgol neu'r llall ar hyn o bryd, fodd bynnag, byddwn ni'n ymgysylltu ag unrhyw grwpiau a nodir fel rhan o'r broses ymgynghori.

**Negyddol** – Mae'r cynnig yn ceisio adleoli'r ddwy ysgol i safle newydd lai na milltir o'r ysgolion presennol a allai arwain at deithio ychwanegol i ddisgyblion mewn grwpiau oedran penodol yn dibynnu ar leoliad eu cartref presennol o'r ysgol bresennol, ond rhagwelir na fydd hyn yn sylweddol yn seiliedig ar wybodaeth plotio disgyblion cyfredol.

**(ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd Teithio Dysgwyr. Mae'r safle a nodwyd ar gyfer adleoli Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf o fewn milltir i'r ddwy ysgol bresennol ac yn parhau i fod yn ardal Rhymni. Mae diogelwch plant yn hollbwysig ac mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu pa mor addas yw teithio i ddysgwyr rhwng y cartref a manau addysg a hyfforddiant. Bwriad yr Awdurdod yw darparu system drafnidiaeth a fydd yn ceisio sicrhau bod disgyblion yn gallu cael mynediad diogel a chysurus at eu haddysg.

Bydd y rhai sy'n mynychu, yn gweithio ac yn defnyddio'r adeilad ysgol pwrpas deul newydd a fydd yn cynnwys Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf, yn elwa o gyfleuster arloesol, addas i'r diben ar gyfer yr 21ain ganrif. Yn ogystal, mae'r bwriad yn bwriadu ymestyn mynediad at yr adeilad newydd i gynnwys defnydd cymunedol a manau a rennir o ddarpariaeth dan do ac awyr agored. I'r perwyl hyn bydd y broses ddylunio yn cynnwys galluogi creu 'parthau' diogel mewn rhannau o adeilad yr ysgol newydd, gan gynnwys y neuadd a gofod ystafell ddsbarth aml-swyddogaeth y gellid ei addasu i'w ddefnyddio gan y naill neu'r llall neu'r ddwy ysgol yn ôl yr angen, yn amodol ar archebu ymlaen llaw. Bydd y seilwaith Wi-Fi a Thechnoleg Gwybodaeth yn cael ei sefydlu i gynorthwyo mynediad cyhoeddus a defnydd cymunedol. Bydd y defnydd o gyfleusterau chwaraeon hefyd yn cael ei ystyried ar gyfer y gymuned ar adegau addas yn unol ag amserlen y cwricwlwm.



(iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?

[Deddf Cydraddoldeb 2010](#)

[Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024](#)

[Cymru Gyfartal 2020-2024 Hawdd ei Ddeall](#)

[Caerffili – Proffiliau Wardiau Cyfrifiad 2011](#)

[Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion \(CYBLD\)](#)

Gwybodaeth Ystadegol yn ymwneud â nifer y disgyblion ar lefel awdurdod lleol a'u cyfrwng iaith ar gyfer addysg.

**2b Anabledd** (*pobl ag anabledau/ cyflyrau hirdymor*)

(i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?

**Cadarnhaol** - Mae hygyrchedd yr ysgolion presennol yn gyfyngedig, mae Ysgol y Lawnt yn adeilad rhestredig gan CADW a godwyd tua 1900, gyda mynediad iddo trwy brif fynedfa serth a phrysur, ac mae Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf wedi'i rhannu'n flociau ar wahân gyda mynediad ar hyd ffordd breswyl gul. Bydd y bwriad i adleoli'r ddwy ysgol i ysgol newydd hygyrch, yn cadw hunaniaeth pob ysgol unigol trwy gyfleuster sy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw un ag anghenion ychwanegol a'u grymuso i fod yn annibynnol, gan gyfrannu ymhellach at eu lles.

**Cadarnhaol** - Mae'r cynnig yn ceisio darparu dwy Ganolfan Adnoddau Arbennig newydd ar gyfer rhai o'n plant mwyaf agored i niwed, trwy ddarparu cyfleusterau Addysg 21ain ganrif modern ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Mae'r cynnig yn ceisio sefydlu canolfan Adnoddau Arbennig 8 Lle yn adran Ysgol y Lawnt o adeilad yr ysgol i ddarparu cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg a chanolfan Adnoddau Arbennig 8 Lle yn rhan o'r adeilad Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf i ddarparu cymorth drwy gyfrwng y Saesneg.

(ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?  
Ddim yn berthnasol

(iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?

Arolygon cyflwr ar gyfer Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf



**2c Ailbennu Rhywedd** (*unrhyw un y mae ei hunaniaeth neu ei r(h)ywedd yn wahanol i'r rhyw a bennwyd iddo/iddi ar adeg ei (g)eni*)

(i) **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?**

**Niwtral**

Dim newid wedi'i ragweld

(ii) **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**

Ddim yn berthnasol oherwydd bod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo'r nodweddion gwarchoddedig penodol eraill.

(iii) **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?**

Ddim yn berthnasol

**2ch Priodas neu Bartneriaeth Sifil** (*pobl sy'n briod neu sydd mewn partneriaeth sifil*)

(i) **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?**

Dim effaith

(ii) **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**

Ddim yn berthnasol oherwydd bod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo'r nodweddion gwarchoddedig penodol eraill.

(iii) **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?**

Ddim yn berthnasol

**2d Beichiogrwydd a Mamolaeth** (*menywod sy'n feichiog a/neu sydd ar absenoldeb mamolaeth*)

(i) **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?**

**Cadarnhaol** – Rhagwelir y bydd cyfleusterau newydd yr ysgol yn annog darpar rieni i ddewis anfon eu plant naill ai i Ysgol y Lawnt neu Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf, gyda chyfleoedd ychwanegol i annog mwy o blant i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg o'r cychwyn cyntaf.

(ii) **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**

Ddim yn berthnasol oherwydd bod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo'r nodweddion gwarchoddedig penodol eraill.





**(iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?**

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Arolwg Rhieni/Gwybodaeth Derbyn

**2e Crefydd neu Gred** (*pobl â chrefyddau a chredoau gwahanol, gan gynnwys pobl heb unrhyw gredoau*)

**(i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchodedig a sut?**

Dim newid wedi'i ragweld

**(ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**

Ddim yn berthnasol oherwydd bod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo'r nodweddion gwarchodedig penodol eraill.

**(iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?**

Ddim yn berthnasol

**2f Rhyw** (*menywod a dynion, merched a bechgyn a'r rhai sy'n pennu eu rhywedd eu hunain*)

**(i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchodedig a sut?**

Dim newid wedi'i ragweld

**(ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**

Ddim yn berthnasol oherwydd bod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo'r nodweddion gwarchodedig penodol eraill.

**(iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?**

Ddim yn berthnasol



**2ff Cyfeiriadedd Rhywiol** (*lesbiaidd, hoyw, deurywiol, heterorywiol, arall*)

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchodedig a sut?**  
Dim newid wedi'i ragweld
- (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**  
Ddim yn berthnasol oherwydd bod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo'r nodweddion gwarchodedig penodol eraill.
- (iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?**  
Ddim yn berthnasol

### 3. Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Penderfyniadau Strategol yn Unig)

(Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud pethau yn wahanol a sicrhau bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn wirioneddol wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau allweddol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb fawr ddim cyfoeth cronedig, os o gwbl, sy'n arwain at fwy o amddifadedd materol, gan gyfyngu ar y gallu i gael nwyddau a gwasanaethau sylfaenol)

**Ystyriwch y grwpiau ychwanegol hyn sy'n agored i niwed a'r effaith y gallai eich cynnig ei chael arnynt:**

- Rhieni sengl a theuluoedd sy'n agored i niwed
- Pobl â lefel isel o lythrennedd/rhifedd
- Pensiynwyr
- Plant sy'n derbyn gofal
- Pobl ddigartref
- Gofalyddion
- Cymuned y Lluoedd Arfog
- Myfyrwyr
- Aelwydydd ag un oedolyn
- Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau
- Pobl sydd â phrofiad o'r system loches
- Pobl o bob oedran sy'n gadael lleoliad gofal
- Pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (MALIC)
- Pobl sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol

#### 3a Incwm Isel / Tlodi Incwm (ni allwch fforddio gwneud taliadau rheolaidd megis biliau, bwyd, dillad, trafnidiaeth ac ati)

##### (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?

**Cad Cadarnhaol** - Bydd darparu cyfleusterau addysgol sy'n addas ar gyfer y dyfodol yn gwella canlyniadau addysg a bywyd disgyblion presennol ac yn y dyfodol yn Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf.

**Cadarnhaol** - mae Ysgol y Lawnt yn gwasanaethu Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI) Moriah 2 ac mae'r ardal hon yn safle 228 allan o 1,909 ac mae Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yn gwasanaethu ardaloedd Twyn Carno 2 sy'n safle 473 allan o 1,909 o ardaloedd yng Nghymru, lle mae 1 yw'r mwyaf difreintiedig a 1,909 yw'r lleiaf difreintiedig. Bydd y cynnig hwn yn gwasanaethu anghenion pob dysgwr, beth bynnag fo'u cefndir ac yn darparu mwy o ddilyniant addysg o 3 i 11 oed.

**Cadarnhaol** - Bydd y cyfleuster hwn yn darparu cyfleusterau cymunedol y gall unrhyw un eu defnyddio waeth beth fo'u hanfantais economaidd gymdeithasol.



## Cadarnhaol

Bydd y cyfleuster yn gwbl hygyrch i bobl ag anableddau dysgu waeth beth fo'u hanfantais economaidd-gymdeithasol benodol.

**Niwtral** – Oherwydd cyfluniad arfaethedig y cyfleusterau cymunedol, gall torri ar weithgareddau gael ei gyfyngu yn ôl yr angen. Er enghraifft, gall clybiau brechwast presennol a darpariaeth cofleidiol sy'n gysylltiedig â'r naill ysgol neu'r llall barhau i gael eu darparu'n annibynnol ac ar yr un pryd os oes angen a thrwy ddewis iaith yr ysgol.

(ii) **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**  
Ddim yn berthnasol

(iii) **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?**

### [A yw Cymru'n Decach? – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol](#)

(Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018)

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cydnabod bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael effaith ganlyniadol ar addysg ac iechyd.

### [Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011 a Safonau'r Gymraeg](#)

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi 'sylw dyledus' i'r effaith gadarnhaol neu negyddol y gallai cynnig ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### [Caerffili – Proffiliau Wardiau Cyfrifiad 2011](#)

Yn ôl ffigurau'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion o Ionawr 2016, roedd 16.9% o'r boblogaeth ysgolion cynradd a 12.7% o'r boblogaeth ysgolion uwchradd mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae ennill cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg yn darparu mynediad ehangach at gyfleoedd cyflogaeth a gyrfa yng Nghymru a thu hwnt.

### [Caerffili - Caerphilly - Strategaeth y Gymraeg 2022-2027](#)

Y targed i gynyddu'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg 3% dros gyfnod y strategaeth.

Maes strategol 5 - Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle drwy alluogi a chefnogi staff rhugl a staff sy'n dysgu, i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

### [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(MALIC\)](#)

Mae Ysgol y Lawnt yn gwasanaethu Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI) Moriah 2 ac mae'r ardal hon yn safle 228 allan o 1,909 ac mae Ysgol Gynradd



Rhymni Uchaf yn gwasanaethu ardaloedd Twyn Carno 2 sy'n safle 473 allan o 1,909 o ardaloedd yng Nghymru, lle mae 1 yw'r mwyaf difreintiedig a 1,909 yw'r lleiaf difreintiedig. Bydd y cynnig hwn yn gwasanaethu anghenion pob dysgwr, beth bynnag fo'u cefndir ac yn darparu mwy o ddilyniant addysg o 3 i 11 oed.

Mae data prydau ysgol am ddim (PYDd) ar gyfer Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yn dangos bod 48.8% o ddisgyblion yn derbyn PYDd ac Ysgol Y Lawnt yn cofnodi 19.8% o gymharu ag 20% ar draws CBSC a Chymru gyfan.

*Tystiolaeth Bellach:*

- **Cyfrifiad 2011: [Cyfrifiad 2011 - Swyddfa Ystadegau Gwladol \(SYG\)](#)**
- **Arolwg defnydd o'r Gymraeg 2019-2020**  
[Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg: Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020 - Llyw Cymru](#)
- **Sefyllfa'r Gymraeg- Comisiynydd y Gymraeg**  
<https://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/cyhoeddiadau-ac-adnoddau/sefyllfar-gymraeg-2016-20-adroddiad-5-mlynedd>
- **Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth**  
<https://www.llyw.cymru/data-am-y-gymraeg-or-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth>
- **Adroddiadau sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg**  
<https://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/sefydliadau-cyhoeddus/cyngor-a-chymorth/adroddiadau-sicrwydd>
- **Arolwg Cenedlaethol Cymru**  
<https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-diwylliant-ar-iaith-gymraeg>
- **Cymraeg 2050: adroddiadau blynyddol**  
<https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-adroddiadau-blynyddol>
- **Nodyn cyngor technegol (TAN) 20**  
<https://www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-20-cynllunio-ar-gymraeg>
- **Data iechyd a'r iaith Gymraeg**  
<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/General-Medical-Services/Pre-October-2009/GPWelshlanguageAbility-by-LocalHealthBoard-Year>
- **Data'r iaith Gymraeg a'r economi**  
[Clawr tasg a gorffen Cymraeg](#)



**3b Fawr ddim Cyfoeth a/neu Ddim Cyfoeth** (*digon o arian i dalu costau byw sylfaenol a biliau ond nid oes gennyhych unrhyw gynilion i ddelio â gwariannau annisgwyl nac unrhyw ddarpariaethau ar gyfer y dyfodol*)

(i) **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?**

**Cadarnhaol**

Mae Ysgol y Lawnt yn gwasanaethu Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI) Moriah 2 ac mae'r ardal hon yn safle 228 allan o 1,909 ac mae Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yn gwasanaethu ardaloedd Twyn Carno 2 sy'n safle 473 allan o 1,909 o ardaloedd yng Nghymru, lle mae 1 yw'r mwyaf difreintiedig a 1,909 yw'r lleiaf difreintiedig. Bydd y cynnig hwn yn gwasanaethu anghenion pob dysgwr, beth bynnag fo'u cefndir ac yn darparu mwy o ddilyniant addysg o 3 i 11 oed.

**Cadarnhaol**

Mae'r cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach beth bynnag fo'u hanfantais economaidd-gymdeithasol benodol.

**Niwtral**

Oherwydd y cyfluniad arfaethedig ar gyfer y cyfleusterau cymunedol, gall torri ar weithgareddau gael ei gyfyngu yn ôl yr angen. Er enghraifft, gall clybiau brecwast presennol a darpariaeth cofleidiol sy'n gysylltiedig â'r naill ysgol neu'r llall barhau i gael eu darparu'n annibynnol ac ar yr un pryd os oes angen a thrwy ddewis iaith pob ysgol.

(ii) **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**  
Ddim yn berthnasol

(iii) **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?**

**[Deddf Cydraddoldeb 2010](#)**

**[Deddf Cymru 2017 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol](#)**

**[Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol](#)**

Mae adran 45 o Ddeddf Cymru 2017, yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb, 2010 i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn y Ddyletswydd hon yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r pŵer hwn i gychwyn Adrannau 1 i 3 o Ddeddf 2010 yng Nghymru – y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Mae'r Ddyletswydd yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrrff, pan fyddan nhw'n gwneud penderfyniadau strategol, i roi sylw dyledus i'r angen i leihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.



Yn yr achos hwn, y brif ystyriaeth o anghydraddoldeb canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol yw “Addysg – y gallu i fod yn wybodus”

### [A yw Cymru'n Decach? – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol](#)

(Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018)

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cydnabod bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael effaith ganlyniadol ar addysg ac iechyd.

### [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(MALIC\)](#)

Mae Ysgol y Lawnt yn gwasanaethu Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI) Moriah 2 ac mae'r ardal hon yn safle 228 allan o 1,909 ac mae Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yn gwasanaethu ardaloedd Twyn Carno 2 sy'n safle 473 allan o 1,909 o ardaloedd yng Nghymru, lle mae 1 yw'r mwyaf difreintiedig a 1,909 yw'r lleiaf difreintiedig. Bydd y cynnig hwn yn gwasanaethu anghenion pob dysgwr, beth bynnag fo'u cefndir ac yn darparu mwy o ddilyniant addysg o 3 i 11 oed.

Mae data prydau ysgol am ddim (PYDd) ar gyfer Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yn dangos bod 48.8% o ddisgyblion yn derbyn PYDd ac Ysgol Y Lawnt yn cofnodi 19.8% o gymharu ag 20% ar draws CBSC a Chymru gyfan.

- 3c Amddifadedd Materol** *(ni allwch gael nwyddau na gwasanaethau sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol megis yswiriant bywyd, atgyweirio nwyddau trydanol wedi torri neu brynu rhai newydd, cartref cynnes, hobiau ac ati)*



- (i) **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?**

**Cadarnhaol** - Un o ragofynion cyllid Llywodraeth Cymru yw bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o seilwaith ac adnoddau er mwyn galluogi hyblygrwydd i sicrhau bod gofod a chyfleusterau ar gael fel asedau cymunedol. Er nad yw dyluniad y safle newydd wedi'i gwblhau eto, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet i symud ymlaen, mae trafodaethau wedi cynnwys creu parthau yn yr adeilad ac ardaloedd y ddwy ysgol (Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf) i gynorthwyo mynediad yn ystod amser ysgol ac ar ôl hynny.

**Cadarnhaol** - Rhagwelir y bydd effaith gadarnhaol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynigion hyn. Bydd deunyddiau Cymraeg yn parhau i fod ar gael ar gyfer y ddwy ysgol, bydd arwyddion yn ddwyieithog a bydd staff yn y derbynfeydd yn cynnig rhyngwynebau Cymraeg a Saesneg, gan amlygu'r Gymraeg i garfanau disgyblion a'u teuluoedd ehangach. Mae'r newidiadau arfaethedig a amlinellir yn y ddogfen hon yn cyd-fynd ag amcanion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili, ac yn cynorthwyo strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg drwy gyfrannu at gyrraedd y targedau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050.

- (ii) **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**  
Ddim yn berthnasol

- (iii) **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?**  
Ddim yn berthnasol

**3ch Amddifadedd Ardal** (*Ile rydych yn byw (ardaloedd gwledig), Ile rydych yn gweithio (hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus). Effaith ar yr amgylchedd?*)

- (i) **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?**

**Cadarnhaol** - Mae Ysgol y Lawnt yn gwasanaethu Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI) Moriah 2 ac mae'r ardal hon yn safle 228 allan o 1,909 ac mae Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yn gwasanaethu ardaloedd Twyn Carno 2 sy'n safle 473 allan o 1,909 o ardaloedd yng Nghymru, lle mae 1 yw'r mwyaf difreintiedig a 1,909 yw'r lleiaf difreintiedig. Bydd y cynnig hwn yn gwasanaethu anghenion pob dysgwr, beth bynnag fo'u cefndir ac yn darparu mwy o ddilyniant addysg o 3 i 11 oed.

**Cadarnhaol** - Bydd y broses ddylunio yn ceisio cynnwys mesurau i alluogi 'parthau' diogel ar gyfer rhannau o adeilad yr ysgol newydd. Tra bydd Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yn cael eu lleoli mewn ardaloedd gwahanol yn yr adeilad ysgol newydd, bydd y defnydd o gyfleusterau annibynnol a rhai a rennir hefyd yn cael eu hystyried ar gyfer y gymuned ar adegau addas yn unol ag amserlen y cwricwlwm. Bydd hefyd yn cryfhau ac yn diogelu hyrwyddo cynhwysiant a lles yn y Gymuned ac yn cynyddu mynediad at y Gymraeg.





**Cadarnhaol** - Bydd caffael yn cynnwys Budd Cymunedol fel gofyniad craidd e.e. o amgylch recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu'n lleol, cadwyni cyflenwi, mentrau cymunedol ac addysg wrth ddarparu'r cyfleuster newydd arfaethedig.

**Cadarnhaol** - Bydd yr ysgol newydd a fydd yn gartref i Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf mewn ardaloedd ar wahân gyda rhai ardaloedd cymunedol ar y cyd, yn darparu cyfleusterau cynhwysol a fydd yn hygyrch i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, ochr yn ochr â chynorthwyo anghenion cyfannol eu teulu ehangach a chynorthwyo eu lles yn y dyfodol. Pan fydd y safle'n cael ei ddefnyddio gan y gymuned byddan nhw'n gallu cael mynediad at y cyfleusterau waeth beth fo'r gofynion.

- (ii) **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**  
Ddim yn berthnasol
- (iii) **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?**

### [Deddf Cydraddoldeb 2010](#)

### [Deddf Cymru 2017 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol](#)

### [Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol](#)

Mae adran 45 o Ddeddf Cymru 2017, yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb, 2010 i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn y Ddyletswydd hon yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r pŵer hwn i gychwyn Adrannau 1 i 3 o Ddeddf 2010 yng Nghymru – y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Mae'r Ddyletswydd yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff, pan fyddan nhw'n gwneud penderfyniadau strategol, i roi sylw dyledus i'r angen i leihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Yn yr achos hwn, y brif ystyriaeth o anghydraddoldeb canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol yw "Addysg – y gallu i fod yn wybodus"

### [A yw Cymru'n Decach? – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol](#)

(Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018)

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cydnabod bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael effaith ganlyniadol ar addysg ac iechyd.



## [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(MALIC\)](#)

### Proffil Ward Etholiadol

Mae proffiliau ward Moriah a Phontlotyn a Thwyn Carno o wybodaeth Cyfrifiad 2011 wedi cael eu hadolygu.

### **3d Cefndir Economaidd-gymdeithasol** *(dosbarth cymdeithasol h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni)*

**(i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?**

**Cadarnhaol** - Bydd y cyfleuster yn gwbl hygyrch i bobl ag anableddau dysgu waeth beth fo'u hanfantais economaidd-gymdeithasol benodol.

**Cadarnhaol** - Byddai'r cyfleuster arfaethedig yn cynnwys ehangu defnydd cymunedol i gynorthwyo ac uwchsgilio rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach gan gynnwys cyrsiau Cymraeg i rieni.

**Cadarnhaol** - Bydd darpariaeth ar gyfer gofal plant Cymraeg a dysgwyr sy'n agored i niwed trwy ganolfannau adnoddau arbennig trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn gwbl gynhwysol a hygyrch i bawb mewn un lleoliad yn ardal Rhymni.

#### **Cadarnhaol**

Bydd y cyfleuster yn darparu cyfleusterau cynhwysol i blant a phobl ifanc ochr yn ochr â chynorthwyo anghenion cyfannol eu teulu ehangach a chynorthwyo eu lles yn y dyfodol.

**Niwtral** – Oherwydd y cyfluniad arfaethedig ar gyfer y cyfleusterau cymunedol, gellir cyfyngu ar yr amharu ar weithgareddau yn ôl yr angen. Er enghraifft, gall clybiau brecwast presennol a darpariaeth cofleidiol sy'n gysylltiedig â'r naill ysgol neu'r llall barhau i gael eu darparu'n annibynnol ac ar yr un pryd os oes angen a thrwy ddewis iaith pob ysgol.



(ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?  
Ddim yn berthnasol

(iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?  
[Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(MALIC\)](#)

### **Proffil Ward Etholiadol**

Mae proffiliau ward Moriah a Phontlotyn a Thwyn Carno o wybodaeth Cyfrifiad 2011 wedi cael eu hadolygu.

**3dd Anfantais Economaidd-gymdeithasol** *(Pa effaith gronol a gaiff y cynnig ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd warchoddedig/ nodweddion gwarchoddedig neu'r ffaith eu bod yn agored i niwed neu am eu bod eisoes o dan anfantais)*

(i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?

**Cadarnhaol** – Un o ragofynion cyllid Llywodraeth Cymru yw bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o seilwaith ac adnoddau er mwyn galluogi hyblygrwydd i sicrhau bod gofod a chyfleusterau ar gael fel asedau cymunedol. Er nad yw dyluniad y safle newydd wedi'i gwblhau eto, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet i symud ymlaen, mae trafodaethau wedi cynnwys parthau rhannau o'r ddwy ysgol a'r ardaloedd cymunedol ar y cyd a manau awyr agored i gefnogi mynediad yn ystod amser ysgol ac ar ôl oriau ysgol.

**Cadarnhaol** - Bydd cyfleoedd ar gael fel rhan o'r cynnig hwn i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg i'r rhai sy'n rhugl ac yn dysgu, o fewn y gymuned leol.

**Cadarnhaol** - Nod y cynnig yw ysgogi a darparu darpariaeth leol, hygyrch, gynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar y gymuned, i fodloni'r galw am addysg cyfrwng Saesneg yn yr ardal, a chyflawni ymrwymadau Cymraeg 2050 a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer ehangu'r cynnig cyfrwng Cymraeg yn ardal Rhymni.

(ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?  
Ddim yn berthnasol

(iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?

- Cyfrifiad 2011: [Cyfrifiad 2011 - Swyddfa Ystadegau Gwladol \(SYG\)](#)
- Arolwg defnydd o'r Gymraeg 2019-2020  
[Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg: Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020 - Llyw Cymru](#)
- Sefyllfa'r Gymraeg- Comisiynydd y Gymraeg  
<https://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/cyhoeddiadau-ac-adnoddau/sefyllfar-gymraeg-2016-20-adroddiad-5-mlynedd>



[chymorth/adroddiadau-sicrwydd](#)

- **Cymraeg 2050: adroddiadau blynyddol**

<https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-adroddiadau-blynyddol>

---

#### 4. Cynllun Corfforaethol – Amcanion Llesiant y Cyngor

*(Sut y bydd eich cynnig yn cyflawni unrhyw rai/pob un o Amcanion Llesiant y Cyngor? Sydd, yn eu tro, yn helpu i gyflawni nodau llesiant cenedlaethol Cymru fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. A fydd yn cael unrhyw effeithiau (cadarnhaol, negyddol neu niwtral)? Os bydd yn cael effeithiau negyddol, sut mae'r rhain wedi'u lliniaru?)*  
Amcanion Llesiant

**Amcan 1** – Gwella cyfleoedd addysg i bawb

**Cadarnhaol** - Mae'r cynnig hwn yn ceisio cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr ifanc oed meithrin a chynradd a'r gymuned gael mynediad at gyfleusterau addysgol o ansawdd uchel. Mae'r cynnig yn ceisio creu adeilad ysgol newydd a rennir gyda chyfleusterau ar gyfer Ysgol y Lawnt (Cyfrwng Cymraeg) ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf (Cyfrwng Saesneg) ac at ddefnydd y gymuned ehangach. Ar hyn o bryd mae Ysgol y Lawnt mewn adeilad rhestredig gan CADW a godwyd cyn 1900 ac mae Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf mewn 2 floc ysgol ar wahân, heb fynediad lifft. Mae cyfyngiadau ar ehangu/adeiladu ar y ddau safle ac maen nhw'n ffinio ag eiddo preswyl. Byddai adleoli'r ddwy ysgol i'r adeilad newydd arfaethedig, yn darparu seilwaith addysgol mwy effeithlon ac effeithiol a fydd yn bodloni'r galw am leoedd yn awr ac yn y dyfodol.


Byddai gan safle'r ysgol gyfan gapasiti cyfunol o 525 wedi'u dadansoddi fel a ganlyn:

Ysgol	Ysgol y Lawnt	Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf
Cyfrwng Iaith	Cymraeg	Saesneg
Cynhwysedd Presennol (CALI)	206 + 29 meithrin	184 + 26 meithrin
Cynhwysedd Arfaethedig (CALI)	315 + 45 meithrin + 8 CAA	210 + 30 meithrin +8 CAA
Newid (+ neu -)	109 + 16 meithrin ychwanegol + 8 CAA	26 + 4 meithrin ychwanegol + 8 CAA

**Cadarnhaol** - Mae'r cynnig hwn yn ceisio sicrhau mynediad cyfartal drwy hyrwyddo a chynorthwyo datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd a rhoi ymrwymiad i ddarparu addysg a gwasanaethau o'r ansawdd gorau posibl.

**Cadarnhaol** - Ar hyn o bryd mae gan Gaerffili 11 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, pob un yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Bydd sefydlu'r cyfleuster newydd hwn sy'n addas i'r diben ac adleoli Ysgol Gynradd Gymraeg y Lawnt yn gymorth i gyrraedd amcanion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili.

Mae'r dalgylchoedd ar gyfer ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg fel a ganlyn:

	1	Ysgol y Lawnt
	2	Ysgol Bro Sannan
	3	Ysgol Penalltau
	4	Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed
	5	Ysgol Gymraeg Trelyn
	6	Ysgol Gymraeg Bro Allta
	7	Ysgol Gymraeg Cwm Derwen
	8	Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon
	9	Ysgol Ifor Bach
	10	Ysgol Gynradd Gymraeg y Castell
	11	Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili

Hon yw'r unig ysgol cyfrwng Cymraeg o fewn radiws o 6.9 milltir o safle presennol Ysgol y Lawnt. Yr ysgol cyfrwng Cymraeg gymunedol agosaf yw Ysgol Bro Sannan, felly mae angen y buddsoddiad i ddiogelu'r canlyniadau addysgol at y dyfodol a chwrdd â'r galw cynyddol.

**Niwtral** - Byddai'r ddwy ysgol yn cael eu hadleoli i'r adeilad newydd, safle sydd wedi'i leoli llai na milltir o'r ysgolion presennol ac o fewn y dalgylchoedd presennol. Rhagwelir mai ychydig iawn o darfu ar drefniadau cludiant disgyblion a fydd, ac mae llwybrau diogel eisoes wedi eu sefydlu yn ôl a blaen o'r safle newydd.

### **Amcan 2** – Galluogi cyflogaeth

Fel rhan o'r gofynion ariannu ar gyfer holl gynigion Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Ysgolion yr 21ain ganrif yn gynt), mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod Budd i'r Gymuned yn ofyniad craidd unrhyw broses gaffael sy'n ymwneud â dyfarnu contractau ac felly caiff ei sgorio fel rhan o'r gwerthusiad Ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o dargedau ynghylch recriwtio a hyfforddi lleol, cadwyni cyflenwi, cymorth cymunedol mewn nwyddau a mentrau addysg.

**Amcan 3** – Mynd i'r afael â chyflenwad, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi ledled y fwrdeistref sirol a darparu cyngor, cymorth neu gefnogaeth er mwyn helpu i wella iechyd a lles pobl

Ddim yn berthnasol gan fod y cynnig yn gysylltiedig â 2 gyfleuster ysgol presennol, sef Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf.



**Amcan 4** – Hyrwyddo system trafndiaeth fodern, integredig a chynaliadwy sy'n cynyddu cyfleoedd, yn hybu ffyniant ac yn lleihau'r effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd gymaint ag sy'n bosibl

**Niwtral** - Mae dyletswydd statudol ar yr Awdurdod i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgol addas agosaf os ydyn nhw'n byw y tu hwnt i 'bellter cerdded' i'r ysgol honno. Asesir pob disgybl yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn cynnig polisi mwy hael na'r hyn sy'n ofynnol yn statudol gan y Mesur. Rhagwelir y bydd y sefyllfa bresennol yn cael ei chynnal gan y bydd yr ysgol gynradd newydd lai na milltir i ffwrdd o safleoedd presennol yr ysgolion.

**Cadarnhaol** - Mae'r pellter rhwng Ysgol y Lawnt, Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf a'r safle adeiladu newydd arfaethedig o fewn radiws o 1 milltir. O ddrws i ddrws, mae Ysgol y Lawnt 0.8 milltir i ffwrdd, ac mae Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf 0.2 milltir o'r safle adeiladu arfaethedig.

**Cadarnhaol** - Fel rhan o Lwybrau Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol mae nifer o gysylltiadau newydd o 'ddefnydd a rennir' yn cael eu sefydlu yn yr ardal leol sy'n rhedeg gerllaw'r safle newydd (INMC1 ac INMC12 – Llwybr Cerdded a Beicio). Bydd goblygiadau traffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth a fyddai'n ofynnol i gael caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith adeiladu pe bai'r cynigion hyn yn cael eu gweithredu.

**Amcan 5** – Creu Bwrdeistref Sirol sy'n cefnogi Ffordd Iach o Fyw yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**Cadarnhaol** - Bydd y bwriad i integreiddio darpariaeth gymunedol bresennol gyda datblygiad y cyfleuster ysgol gynradd defnydd deuol newydd yn helpu disgyblion Ysgol y Lawnt, Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf a'r gymuned leol i fod yn rhan o Gymru iachach a chynorthwyo cydlyniant cymunedol.

**Cadarnhaol** - Bydd darparu cyfleusterau addysgol sy'n addas ar gyfer y dyfodol yn gwella canlyniadau addysg a bywyd y disgyblion presennol yn Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf a disgyblion y dyfodol ar safle a rennir yr Ysgol Gynradd newydd. Bydd y cyfleuster a rennir yn gwbl hygyrch i bob dysgwr waeth beth fo'u hanfantais economaidd-gymdeithasol benodol, gan alluogi plant sy'n cael mynediad i'r ysgol i ffynnu, gyda sgil effeithiau cadarnhaol i'r plant, eu teuluoedd a'r ardal leol.

**Amcan 6** – Cynorthwyo dinasyddion i aros yn annibynnol a gwella eu llesiant



**Cadarnhaol** - Mae'r cynnig yn cynnwys datblygu Canolfan Adnoddau Arbennig ar gyfer y ddwy Ysgol, gan ddarparu 16 o leoedd i gyd, 8 wedi'u darparu drwy gyfrwng y Gymraeg ac 8 drwy'r Saesneg, gan alluogi disgyblion mwy agored i niwed i gael mynediad at gymorth ac adnoddau trwy gyfrwng y dewis iaith. Nid yw hyn wedi'i sefydlu ar hyn o bryd yn y naill safle na'r llall ac mae ei angen yn fawr yng Ngogledd y Fwrdeistref Sirol lle mae amddifadedd yn uwch.

**Cadarnhaol** - Y cyfleusterau cymunedol a rennir yn yr ysgol fydd y neuadd a fydd yn cael y cyfle i gael ei rhannu ar gyfer defnydd ysgol unigol pe bai angen hynny er mwyn lleihau unrhyw amharu ar unrhyw weithgareddau mewn iaith benodol, ond yna un ardal ar gyfer defnydd cymunedol a chydlyniant y safle ehangach. Byddai ardal y gegin yn cael ei rhannu ond byddai gan bob ysgol eu man gweini eu hunain fel bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn y cyfrwng iaith ar gyfer pob ysgol. Byddai dwy ystafell gymunedol ar gael at ddefnydd ysgolion unigol ond ar gael wedyn at ddefnydd cymunedol ehangach.

**Cadarnhaol** - Bydd derbynfa/man gweinyddol a rennir gyda mynedfa a rennir a fydd yn darparu swyddogaethau yn y ddwy iaith a bydd arwyddion dwyieithog drwyddi draw. Bydd hyn yn rhoi lle amlwg i'r Gymraeg ac yn ehangu ymhellach y defnydd o'r Gymraeg yn y Gymuned.

**Cadarnhaol** - Byddai'r Man Chwarae Amldefnydd hefyd ar gael i'w defnyddio gan y ddwy ysgol, a'r gymuned ehangach, ond byddai angen amserlennu ar gyfer ei defnyddio.

**4a. Cysylltiadau â Pholisïau perthnasol eraill y Cyngor** (*Sut y bydd eich cynnig yn cyflawni unrhyw bolisïau perthnasol eraill sydd gan y Cyngor?*)

Mae'r cynnig yn cyfrannu at y Strategaethau a ganlyn:

- **Strategaeth Addysg Awdurdod Lleol Caerffili (2022 – 2025)**

**'Dilyn Rhagoriaeth Gyda'n Gilydd'**

Bydd y cynnig hwn yn gwireddu uchelgais y Cyngor i roi'r cyfleoedd bywyd gorau i bob dysgwr trwy ddarparu addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel ar draws ein lleoliadau ysgol trawiadol ar gyfer yr 21ain ganrif.

- **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili (2022-2032)**

Mae ymrwymiad y Cyngor i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth fel y gwelir ym Mand B o raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Gweledigaeth y Cyngor yw sicrhau mynediad cyfartal drwy hyrwyddo a chynorthwyo datblygiad addysg gynhwysol a rhoi ymrwymiad i ddarparu'r ansawdd gorau posibl o addysg a gwasanaethau o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Ymhellach, wrth arfogi





ysgolion a darparwyr addysg y nod yw codi safonau'r Gymraeg a hybu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd, cymunedau a gweithleoedd.

- **Strategaeth Iaith Gymraeg Caerffili (2022 – 2027)**

Y llinell sylfaen ar gyfer y strategaeth yw proffil iaith presennol y Fwrdeistref Sirol er mwyn gallu pennu targed cyraeddadwy o gynnydd mewn siaradwyr Cymraeg fel sy'n ofynnol yn ôl Safon y Gymraeg 145. M. Yn ôl Cyfrifiad 2011, nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Caerffili oedd 19,251 neu 11.2%, mae'r data hwn yn debygol o newid yn dilyn cyfrifiad 2021.

Ar 31 Rhagfyr 2020, yn ôl yr arolwg poblogaeth blynyddol:

- ✓ Nifer y bobl a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol oedd 42,700 neu 24.3%
- ✓ Roedd 19.9% o'r boblogaeth yn gallu darllen Cymraeg, 18.4% yn gallu ysgrifennu Cymraeg, a 27.2% yn deall Cymraeg llafar
- ✓ Amllder nifer y bobl a oedd yn siarad Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Caerffili bob dydd oedd 10.2%

Dros y pum mlynedd diwethaf mae nifer y plant sy'n trosglwyddo o leoliadau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi amrywio o 72.29% i 99.43%. O'r holl boblogaeth ysgol gynradd mae 17.22% yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg gyda thua 97.75% o'r rhain yn trosglwyddo i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

- **Cynllun Cydraddoldeb Strategol Caerffili**

Yn ddogfen statudol o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, mae'r cynllun pedair blynedd hwn yn egluro'n syml beth mae pob un o'r materion cydraddoldeb yn ei olygu mewn gwirionedd ac o dan ba ddeddfwriaeth ehangach y mae gennym ni gyfrifoldebau fel cyngor. Mae'n amlygu cysylltiadau â deddfwriaeth a rheoliadau sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg a materion Hawliau Dynol a sut mae'n cynorthwyo 4 o 7 nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru; Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

- **Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant**

Adroddiad sy'n dwyn ynghyd ystod o wahanol ddata a gwybodaeth i datblygu darlun o'r farchnad gofal plant bresennol ac adnabod unrhyw fylchau cyflenwi.



- **Strategaeth Datgarboneiddio Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Mae gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili hanes rhagorol o roi cynlluniau ar waith sydd o fudd i'r amgylchedd. Mae'r awdurdod wedi lleihau allyriadau carbon drwy fuddsoddi mewn technolegau sy'n lleihau defnydd ac rydyn ni wedi gweithio'n galed i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd lleihau carbon gyda'n staff, disgyblion a thrigolion ledled y Fwrdeistref Sirol. Bydd cynigion yn ystyried y ffordd orau o gyflawni'r agenda hon fel rhan o'r broses adeiladu a materion gweithredol yn y dyfodol.

- **Asesiad Effaith Integredig**

Bydd defnyddio'r cynllun Asesiad Effaith Integredig hwn yn helpu ymhellach i gynorthwyo'r Cyngor i wneud penderfyniadau gwybodus ac effeithiol gan sicrhau cydymffurfio ag ystod o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o'r Ddeddf Cydraddoldeb
- Deddf 2010
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Ymgynghoriad Statudol v Athrawiaeth Disgwyliad Cyfreithlon ac Egwyddorion Gunning

## **5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Y Pum Ffordd o Weithio**

*(A elwir hefyd yn egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried sut y bydd unrhyw gynnig yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio fel llinell sylfaen)*

### **Sut rydych wedi defnyddio'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy wrth lunio'r cynnig?**

#### **Hirdymor**

Rhaid i'r Cyngor weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Ar hyn o bryd mae Ysgol y Lawnt mewn adeilad rhestredig gan CADW a godwyd cyn 1900 ac mae Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf mewn 2 floc ysgol ar wahân, heb lifft yn y naill leoliad na'r llall. Mae cyfyngiadau ar ehangu/adeiladu ar y ddau safle ac maen nhw'n ffinio ag eiddo preswyl.

Wrth lunio'r cynnig, mae ystyriaeth wedi ei roi i leoliadau eraill o fewn ffin yr anheddiad, gan gynnwys ailddatblygu ar y safleoedd ysgol presennol, fel y gwelir yn



y gwerthusiad opsiynau. Yn ogystal, mae ystyriaeth wedi ei roi i egwyddor 1af Canol y Dref wrth ddatblygu'r cynnig hwn. Fodd bynnag, mae'r rhain wedi'u diystyru ar hyn o bryd oherwydd addasrwydd, argaeledd cyfyngedig a methu â darparu ar gyfer y fformat, y raddfa a'r dyluniad sy'n ofynnol ar gyfer yr ysgolion cynradd.

Mae'r safle newydd arfaethedig ar gyfer y datblygiad wedi'i adnabod ar gyfer dwy ysgol bresennol yn ardal Rhymni, ac yn ogystal â llwybrau trafndiaeth sydd wedi'u hen sefydlu, fodd bynnag, mae y tu allan i ffin anheddiad Tref Rhymni.

Byddai adleoli'r ddwy ysgol i'r adeilad newydd arfaethedig yn darparu seilwaith addysgol mwy effeithlon ac effeithiol a fydd yn bodloni'r galw am leoedd yn awr ac yn y dyfodol.

Gan adeiladu ar y mandad Carbon Sero Net, mae ein cynnig wedi'i fframio i ddangos dyluniad arloesol a chydweithredol, gan gwmpasu'r amgylchedd adeiledig a'r dirwedd o'i amgylch mewn ffordd sy'n cyfoethogi bywyd beunyddiol disgyblion.

Byddai datblygu safle cynaliadwy, hyblyg yn galluogi:

- Gwneud y mwyaf o le ar gyfer ad-drefnu'r safle
- Cyflawni ymrwymadau Cymraeg 2050 a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod drwy gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg tra hefyd yn galluogi hyblygrwydd i reoli lleoedd dros ben yn yr ardal
- Cyfleusterau cymunedol a rennir gan gynnwys neuadd y gellir ei haddasu, ystafell gymunedol, cegin a storfa sy'n gallu darparu'r cynnig prydau ysgol am ddim cyffredinol a fyddai hefyd ar gael at ddefnydd y gymuned ehangach
- Oes elfennol hirach
- Cost oes gyfan is
- Gwell gwerth am arian

Yn amodol ar gymeradwyaeth i'r cynnig, ar ôl eu hadleoli, byddai'r hen adeiladau a'r safleoedd ysgol presennol yn cael eu dosbarthu fel rhai nad oes eu hangen mwyach ac yn dod yn Ased Corfforaethol heb ei ddyrannu. Byddai defnydd o'r adeilad a'r safle yn y dyfodol wedyn yn destun cyfres o brofion trylwyr i sicrhau bod y Gymraeg a Defnydd Cymunedol Lleol yn cael eu blaenoriaethu. Byddai unrhyw grwpiau cymunedol presennol sy'n cael eu cynnal yn y naill neu'r llall o'r ysgolion presennol yn cael eu hannog i adleoli i'r safle newydd wedi'i uwchraddio, a lle nad yw hyn yn bosib, byddai lleoliadau eraill fel y Llyfrgell leol hefyd yn cael eu hystyried. Mae ymarfer casglu data cychwynnol wedi'i gynnal, a defnydd cymunedol cyfyngedig sydd yn y ddwy ysgol ar hyn o bryd, fodd bynnag byddwn yn ymgysylltu ag unrhyw grwpiau cymunedol a nodwyd fel rhan o'r broses ymgynghori.

#### **Atal**

Bydd darparu safle newydd pwrpasol i ddysgwyr yn nalgylch y ddwy ysgol bresennol (a fydd yn aros yr un fath o ganlyniad i'r cynnig hwn) yn galluogi disgyblion i gael



mynediad at gyfleuster 21ain ganrif ac i dderbyn cyfleoedd dysgu wedi'u teilwra yn eu dewis iaith wedi'u cynllunio i ddiwallu eu hanghenion addysgol penodol.

Bydd yr adeilad pwrpasol hwn a fydd yn cynnwys Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yn darparu ar gyfer y galw presennol ac yn y dyfodol am addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg ym mhen gogleddol y Fwrdeistref Sirol.

Oherwydd y cyfluniad arfaethedig ar gyfer y cyfleusterau cymunedol, gall amharu ar weithgareddau gael ei gyfyngu yn ôl yr angen. Er enghraifft, gall clybiau brechwast presennol a darpariaeth cofleidiol sy'n gysylltiedig â'r naill ysgol neu'r llall barhau i gael eu darparu'n annibynnol ac ar yr un pryd os oes angen ac yn newis iaith pob ysgol. Yn ogystal, bydd angen i unrhyw weithgareddau Defnydd Cymunedol ddarparu ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm os cânt eu cyflawni yn ystod oriau ysgol.

### **Integreiddio**

Bydd y cynnig i greu adeilad ysgol newydd a rennir a fydd yn cynnwys Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yn effeithio ar Nodau Llesiant:

- Cymru lewyrchus
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru iachach
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Bydd y cyfleusterau arfaethedig yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach ar gyfer gweithgareddau addysgol, adloniadol a hamdden. Fodd bynnag, oherwydd y cyfluniad arfaethedig ar gyfer y cyfleusterau cymunedol, gellir cyfyngu ar yr amharu ar weithgareddau a gellir parhau i'w cyflwyno'n annibynnol ac ar yr un pryd os oes angen a thrwy ddewis iaith pob ysgol.

Rhagwelir, trwy fod y ddwy ysgol yn meddiannu'r un safle, y bydd hefyd yn galluogi mwy o amlygiad a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg trwy gynorthwyo dyheadau'r Addysg Gymraeg: Papur Gwyn ynghylch Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf.

### **Cydweithio**

Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda staff yn y ddwy ysgol ac ar draws ystod o adrannau i lunio'r cynnig i'r cam cychwynnol hwn i'w gymeradwyo. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet a Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen, bydd ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid perthnasol yn cael ei gynnal i lunio'r adeilad newydd a'i gyfleusterau. Bydd dilyn y prosesau ymgynghori a ragnodir gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn cynnwys ymgysylltu â'r dysgwyr i sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed yn y broses ddatblygu.

### **Cyfranogiad**

Mae'r cynnig hwn yn ceisio adleoli Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf i adeilad newydd a rennir o fewn milltir i'r ysgolion presennol. Mae'n rhaid pwysleisio y byddai'r ddwy ysgol yn parhau fel endidau ar wahân, yn darparu addysg i ddisgyblion



yn eu priod ieithoedd a byddai ganddyn nhw eu hardaloedd eu hunain o fewn yr adeilad gydag adnoddau ac arwyddion priodol, yn ogystal â mynediad at ardaloedd cymunedol a rennir. Mae hyn yn gosod y newid arfaethedig o fewn cwmpas y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) felly bydd canllawiau'r Cod, yn enwedig o ran ymgynghori ac ymgysylltu, yn cael eu dilyn yn agos. Bydd Llais y Dysgwr hefyd yn cael ei ddal fel rhan o'r broses hon.

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet a chanlyniad y broses ymgynghori addysgol, bydd yna broses cais cynllunio ar wahân a fydd yn mynd i'r afael â nifer o ystyriaethau cynllunio perthnasol. Bydd y broses hon yn galluogi cyfranogiad a chyfleoedd ymgysylltu pellach i bartïon â diddordeb.



## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

### **A yw'r cynnig yn sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y Nodau Llesiant a sut?**

#### **Cymru lewyrchus**

*Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas*

**Mae gweithlu medrus ac addysgedig yn galluogi unigolion i fyw bywydau llwyddiannus a chyfrannu at yr economi ehangach.**

**Mae'r cynnig hwn yn cynorthwyo'r nod Llesiant hwn drwy:**

#### **Carbon Corfforedig / Carbon Gweithredol**

Nod Rhaglen Band B Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yw cyflwyno cyfuniad o adeiladu ysgolion newydd, ehangu, uno, adleoli ac adnewyddu, pob un â'r potensial i gynorthwyo strategaethau Llywodraeth Cymru a'r Cyngor ar ddatgarboneiddio a darparu model cyflawni newydd. I'r perwyl hynny, bydd sectorau gweithlu medrus a gwybodus yn cael eu cynnwys i gyflawni'r canlyniad hwn. Gan fod y datblygiad ysgol hwn yn cynnwys ysgol Cyfrwng Cymraeg, bydd cyfleoedd i ddefnyddio sgiliau yn y Gymraeg drwy ryngweithio rhwng cleientiaid/ysgolion a chontractwyr.

#### **Rhagolygon ar gyfer y Dyfodol :**

Safle Ysgol Gynradd newydd gyda chyfleusterau'r 21ain ganrif wedi'i gynllunio i gyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol newydd a'r sgiliau angenrheidiol i bobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gan y bydd Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yn yr un datblygiad. Bydd hyn, yn ei dro, yn darparu'r sylfaen ar gyfer datblygu gweithlu medrus ac addysgedig sydd ei angen i osod sylfane ar gyfer twf economaidd yng Nghymru a chryfhau cyfleoedd i ddisgyblion yn yr Ysgol Gynradd Saesneg ddatblygu sgiliau Cymraeg trwy ryngweithio â disgyblion o'r ysgol cyfrwng Cymraeg.

**Cymru gydnerth**



*Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (ar gyfer newid yn yr hinsawdd)*

**Bydd pobl ifanc sydd wedi datblygu llesiant cadarnhaol a ffyrdd iach o fyw yn gallu ymdopi'n well â'r newidiadau a ddaw yn sgil y dyfodol a thrwy hynny wneud Cymru'n genedl fwy gwydn.**

**Mae'r cynnig hwn yn cynorthwyo'r nod Llesiant hwn drwy:**

Disodli safleoedd yr ysgolion presennol sydd wedi dyddio gydag adeilad newydd a fydd yn bodloni gofynion BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) a Carbon Sero Net yn unol â'n hymrwymadau datgarboneiddio. Bydd yr adeilad newydd yn cael ei ddarparu mewn ffordd gynaliadwy ac ecogyfeillgar, gyda gwell bioamrywiaeth a'r opsiwn i ddatblygu 'ysgol goedwig' gyda llai o effaith gyffredinol ar newid yn yr hinsawdd a chyfleoedd i'r ysgolion a'r gymuned ehangach gael mynediad at gyfleusterau o safbwynt addysgol, adloniadol a hamdden.

Bydd datblygu adeilad ysgol gynradd gyfoes ar gyfer yr 21ain ganrif a fydd yn cynnwys Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf o fudd sylweddol i'w disgyblion ac, fel yr awgrymwyd gan Estyn, bydd amgylchedd dysgu o ansawdd uchel o'r natur hwn yn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu, llesiant a deilliannau disgyblion. Mae'r model hwn wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus ym mhrosiect Ysgol Gynradd Gabalfa ac Ysgol Gymraeg Glan Ceubal yng Nghaerdydd, lle mae'r ddwy ysgol wedi'u cydleoeli mewn adeilad gyda chyfleusterau cymunedol a rennir ac yn parhau i weithredu'n llwyddiannus fel sefydliadau ar wahân sy'n darparu addysg Gymraeg a Saesneg.

**Cymru iachach**

*Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol*

**Mae galluogi pobl i ddatblygu llesiant cadarnhaol a ffyrdd iach o fyw yn arwain at fudd hirdymor cadarnhaol i'w hiechyd eu hunain ac i gymdeithas yn gyffredinol.**

**Mae'r cynnig hwn yn cynorthwyo'r nod Llesiant hwn drwy:**

Bydd y safle newydd arfaethedig yn creu adeilad ysgol gynradd defnydd deuol a fydd yn cynnwys disgyblion Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yn ogystal â darpariaeth meithrinfa a chanolfan adnoddau arbennig ar gyfer y ddwy ysgol. Bydd parhad y ddarpariaeth ar un safle o fudd sylweddol i blant, disgyblion, rhieni, teuluoedd a'r gymuned leol.



Bydd y cynnig am adeilad ysgol gynradd addas i'r diben ar gyfer Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yn darparu amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol gyda chyfleusterau'r 21ain ganrif gan gynnwys cyfleusterau TGCh gwell, yn canolbwyntio ar ddysgu, hunan-werth a llesiant pob disgybl. Bydd y cynigion yn dod â manau dysgu a chyfleusterau cymunedol gwell. Bydd yr olaf yma ar gael i'r gymuned ar adegau addas yn unol ag amserlen y cwricwlwm ac ar ôl oriau ysgol.

Bydd yr amgylchedd gwell ar gyfer y ddwy ysgol o gymharu â'u seilwaith a'r chyfyngiadau presennol ar y ddau safle yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant meddyliol y disgyblion. Bydd ardaloedd gweithgareddau awyr agored newydd yn cynorthwyo'r disgyblion i ddatblygu ffordd iach o fyw a chadw'n heini. Bydd y cyfleusterau hyn hefyd ar gael at ddefnydd y gymuned ac felly byddan nhw'n chwarae rhan mewn cynorthwyo ffyrdd iach o fyw yn y gymuned leol.

Oherwydd y cyfluniad arfaethedig ar gyfer y cyfleusterau cymunedol, gall torri ar weithgareddau gael ei gyfyngu yn ôl yr angen a pharhau i gael ei gyflwyno'n annibynnol ac ar yr un pryd os oes angen a thrwy ddewis iaith pob ysgol. Bydd hyn yn ôl disgrisiwn y ddwy ysgol ac yn amodol ar ymgysylltu a thrafod pellach wrth i'r cynnig fynd rhagddo.

Bydd manau cymunedol a rennir hefyd yn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg rhwng disgyblion a staff ar y safle yn y ddwy ysgol, sydd wedi'i nodi yn y Fframwaith fel rhywbeth sydd o fudd i iechyd unigolion a llesiant cymunedol.

### **Cymru sy'n fwy cyfartal**

*Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol)*

**Dylai pawb yng Nghymru allu byw eu bywydau a chyflawni eu potensial.**

**Mae'r cynnig hwn yn cynorthwyo'r nod Llesiant hwn drwy:**

**Defnydd Cymunedol:**

**Defnydd Cymunedol:**

Bydd y rhai sy'n mynychu, yn gweithio ac yn defnyddio'r adeilad yn elwa o gyfleuster arloesol ac addas i'r diben ar gyfer yr 21ain ganrif. Yn ogystal, fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, un o'r Amcanion Buddsoddi allweddol yw gwneud y defnydd gorau o seilwaith ac adnoddau, a sicrhau hyblygrwydd ein hasedau fel bod y gofod a'r cyfleusterau sydd ar gael i'n rhanddeiliaid yn cael eu cynyddu i'r eithaf. Bydd y prosiect arfaethedig yn cymryd i ystyriaeth yr awydd i annog a hwyluso defnydd cymunedol o'r ased mewn ffordd ddiogel a hawdd ei reoli. I'r perwyl hwn bydd y broses ddylunio yn ceisio cynnwys mesurau i alluogi defnydd diogel o'r ardaloedd cymunedol a rennir gan y ddwy ysgol a fydd yn cynnwys neuadd, ystafelloedd dosbarth amlbwrpas a manau chwarae awyr agored i'r gymuned ar adegau addas yn unol ag amserlen y cwricwlwm.





Bydd y seilwaith Wi-Fi a Thechnoleg Gwybodaeth yn cael ei sefydlu i gynorthwyo mynediad cyhoeddus a defnydd cymunedol.

### **Effaith ar ysgolion eraill:**

Ni ddylai'r cynnydd mewn capasiti ar gyfer y ddwy ysgol gael fawr o effaith ar ysgolion cyfagos ond mae'n darparu'r ychwanegedd i fodloni'r galw a ragwelir yn y dyfodol. Bydd cyflwyno'r nifer derbyn yn raddol yn cael ei ystyried os yw hyn o gymorth i osgoi unrhyw effaith ormodol ar ysgolion cyfagos.

Bydd yr adeilad ysgol ar gyfer yr 21ain ganrif newydd sbon hwn, sy'n cynnwys Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf, yn darparu digon o leoedd o fewn y ddau ddalgylch fel y gall holl ddarpar ddisgyblion yr ardal, beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau, fanteisio ar y cyfleusterau, yr addysgu a'r dysgu rhagorol yn adeilad yr ysgol newydd.

Bydd cynyddu'r nifer derbyn mewn modd y gelir ei reoli'n hwylus yn caniatáu ar gyfer y twf heb orddatblygu'r ddarpariaeth i ansefydlogi darpariaethau addysgol eraill sydd eisoes wedi'u sefydlu yn yr ardal.

Mae'n anochel y bydd newidiadau i addysg gynradd, boed hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn effeithio ar addysg uwchradd. Mae Ysgol y Lawnt yn ysgol fwydo ar gyfer Ysgol Gymraeg Cwm Rhymni, tra bod Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yn bwydo i Ysgol Idris Davies 3-18 oed. Tra bod addysg uwchradd yn cael ei hadolygu o fewn yr awdurdod ar hyn o bryd gan gynnwys un rhyw, lleoedd dros ben a darpariaeth, hyd nes y bydd penderfyniad wedi'i wneud, rhagdybir yn y cynnig hwn y byddai'r cyfluniad bwydo presennol yn aros yr un fath. Yn seiliedig ar y rhagamcanion cyfredol a'r data sydd ar gael, ni fyddai'r cynnig hwn yn cael fawr o effaith ar ddarpariaeth uwchradd.

### **Cymru o gymunedau cydlynus**

*Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da*

Mae'r cynnig yn ceisio darparu darpariaeth adeiladu ysgol newydd addas i'r diben a fydd yn cynnwys Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf. Bydd cyfuno'r ddwy ysgol ar un safle yn annog cydlyniant cymunedol trwy i blant o'r un gymuned gael mynediad i'r un cyfleusterau addysgol a chymunedol. Bydd hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu ar gyfer teuluoedd a bydd cyfleusterau canolog i'r gymuned ehangach yn dod â'r cymunedau ynghyd.

Rhodddwyd ystyriaeth i bryderon posibl yn ymwneud â gwanhau'r Gymraeg lle gall y gymuned Gymraeg ei hiaith ddefnyddio'r Saesneg pan fyddan nhw i gyd yn dod at ei gilydd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn bwriadu lliniaru hyn cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl trwy ddefnyddio'r safle hwn fel archdeip i fanteisio'n llawn ar y cyfle i wneud Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yn ysgol enghreifftiol lle bydd yn defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol, trwy'r cynllun Cymraeg i Blant, ymgysylltu â'r cwrs Cymraeg i'r Teulu, gefeillio posibl yr ysgolion lle gellir rhannu diwylliannau'r ysgolion a'r



posibilrwydd o gynllun mentora Cymraeg lle caiff disgyblion Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf eu mentora ar gyfer gwersi Cymraeg gan eu cyfoedion o Ysgol y Lawnt. Rhoddir ystyriaeth hefyd i osod targedau yn unol ag Addysg Gymraeg: Papur Gwyn er mwyn gwella darpariaeth y Gymraeg mewn ysgolion a gynhelir nad ydyn nhw eisoes yn ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig. Cynhelir trafodaethau a chymorth pellach gyda'r ddwy ysgol wrth i'r cynnig fynd rhagddo er mwyn ymchwilio i'r opsiynau sydd ar gael i gynorthwyo'r dyhead hwn.

### **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

*Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden*

Mae'r cynnig hwn yn gyfle i adfywio addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal gydag adeilad a chyfleusterau cymunedol newydd. Dylid nodi nad oes gan safle presennol Ysgol y Lawnt unrhyw gapasiti pellach ar gyfer ehangu ac oherwydd natur restredig y prif adeilad, mae'r gallu i wneud gwelliannau'n gyfyngedig.

Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, rhoddwyd ystyriaeth i sut i hyrwyddo ac annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar draws y ddwy ysgol.

### **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

*Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang*

Bydd caffael yn cynnwys Manteision Cymunedol fel gofyniad craidd e.e. ynghylch recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu'n lleol, cadwyni cyflenwi, mentrau cymunedol ac addysg wrth ddarparu'r cyfleuster newydd arfaethedig. Bydd hyn yn cynnwys y cyfle i ddysgu / ymgysylltu trwy gyfrwng y Gymraeg.

---



## 7. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg

*(Mae Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi 'sylw dyledus' i'r effaith gadarnhaol neu negyddol y gallai cynnig ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg)*  
Safonau Llundain Polisi – Dogfen Gynqor Arferion Da

### 7a. Cysylltiadau â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd 2022-2027 a Phroffil Iaith BSC

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?

**Cadarnhaol** - Bwriedir ymgysylltu â Fforwm Iaith Gymraeg Caerffili fel rhan o weithredu'r cynnig hwn i sicrhau bod yr holl sefydliadau perthnasol yn ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg.

**Cadarnhaol** - Gellir derbyn cais am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg eisoes ar hyn o bryd. Wrth wneud hynny, mae capasiti i fodloni dewis iaith a hawliau'r unigolyn i dderbyn ei addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Niwtral** - Mae potensial i ddisgyblion wneud cynnydd da wrth ddatblygu eu sgiliau Cymraeg wrth iddyn nhw symud drwy'r ysgolion a rhagwelir y bydd capasiti presennol Ysgol y Lawnt yn cynyddu o ganlyniad i'r cynnig.

**Negyddol** - Potensial i gymuned Gymraeg ei hiaith orfod defnyddio'r Saesneg wrth ddefnyddio cyfleusterau a rennir. Ni fyddai unrhyw effaith yn ymwneud â chyflwyno'r cwricwlwm yn gyffredinol gan fod y ddwy ysgol yn parhau i fod yn endidau ar wahân ac mae ganddyn nhw eu hystafelloedd dosbarth/gofod addysgu/dyraniadau gofod allanol dynodedig eu hunain.

- (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?

Bydd yr holl arwyddion ar draws safle'r ysgol a chyfleusterau cymunedol yn ddwyieithog fel rhan o'n hymrwymiad i gynyddu amlygiad i'r Gymraeg. Er enghraifft, codwyd arwydd safle presennol Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf cyn i'r rheoliadau ddod i rym, felly dim ond yn Saesneg y mae ar hyn o bryd.

Gan weithio gyda'r ysgolion, byddai'r Cyngor yn annog y ddwy safle ysgol i ymrwmo i ddod at ei gilydd i gynnal digwyddiadau rhyngweithiol megis mabolgampau neu Eisteddfodau – nid i greu cystadleuaeth, ond i greu profiad dysgu ar y cyd, ac fel bod plant yr ysgol cyfrwng Saesneg yn gweld manteision siarad Cymraeg.



**(iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? e.e. WESP, TAN20, CDLI, Cyfrifiad**  
*Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion*

Mae tystiolaeth gynyddol o alw cynyddol am leoedd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae nifer y ceisiadau am leoedd derbyn yn yr ysgol wedi cynyddu, gyda rhai ceisiadau yn cael eu gwrthod yn y 2 flynedd ddiwethaf.

Yn ogystal, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Cymraeg 2050 yn 2017, sy'n nodi gweledigaeth o gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Erbyn 2031, y nod ar gyfer Caerffili yw cael 26% o leoedd addysg cyfrwng Cymraeg yn ein blwyddyn 1. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y system addysg yn elfen allweddol o sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu Sgiliau Cymraeg ac ar gyfer creu siaradwyr newydd ac er mwyn gwneud cynnydd pellach i'r hyn a gyflawnwyd eisoes yn y Fwrdeistref Sirol, mae angen buddsoddiad pellach yn y seilwaith. Mae Ysgol y Lawnt wedi'i hadnabod fel safle strategol, i gynorthwyo niferoedd cynyddol yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gymdeithasol yn y Fwrdeistref Sirol.

Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn cynnal Cylch Meithrin Mwy Rhymni, a ddarperir gan Cylch Meithrin Rhymni ar gyfer 27 o blant. Fodd bynnag, nid oes capasiti o fewn yr ysgol bresennol i gyflwyno'r ddarpariaeth gofleidiol lawn ymhellach a nodwyd bod angen lleiafswm o 32 o leoedd pellach.

Yn seiliedig ar ragamcanion ac adeiladau newydd yn yr ardal rydyn ni'n rhagweld y bydd 6.31% o leoedd dros ben erbyn 2025, nad yw'n caniatáu ar gyfer unrhyw dwf yn enwedig os na cheir gofal plant ychwanegol.

Yn amodol ar gymeradwyaeth i'r cynnig amlinellol i ddatblygu'r safle a rennir, rydyn ni'n rhagweld yr angen i gyflwyno bid gofal plant ar gyfer y ddarpariaeth hon yn y cylch ceisiadau ar ôl 2025.

**7b. Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. *Safonau 88–93 yn benodol***

**(i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?**

**Cadarnhaol** – Bydd y safle cyfan, gan gynnwys cyfleusterau cymunedol pan gaiff ei adeiladu, yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ynghylch arwyddion, cyfleusterau archebu ac ati.

**Cadarnhaol** - Gellir darparu ar gyfer cais am addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae tystiolaeth gynyddol o alw cynyddol am leoedd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae nifer y ceisiadau am leoedd derbyn yn yr ysgol wedi cynyddu, gyda rhai ceisiadau yn cael eu



gwrthod yn y 2 flynedd ddiwethaf. Bydd y cynnig hwn yn sicrhau mwy o gapasiti yn Ysgol Y Lawnt wrth symud ymlaen er mwyn diwallu dewis rhieni.

**Cadarnhaol** - Mae'r holl ddogfennaeth gan gynnwys y wefan sy'n ymwneud â'r cynnig yn cael ei chynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n cynorthwyo ymhellach y defnydd o'r Gymraeg ac yn peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Niwtral** - Bydd unrhyw gyfarfodydd gyda'r naill ysgol neu'r llall i drafod darpariaeth addysg, yn cael eu cyflwyno trwy ddewis iaith y plentyn/teulu a gellir diwallu'r hawl sydd ganddyn nhw i hyn ar hyn o bryd o dan Fesur y Gymraeg. Mae hyn yn creu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac nid yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Niwtral** - Bydd y broses yn ystod y ddau gyfnod Ymgynghori yn sicrhau bod ymgynghoreion allweddol yn cael eu targedu fel yr amlinellir yn Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili; bydd y broses yn darparu cyfleoedd i ymateb mewn dewis iaith - Cymraeg neu Saesneg. Yn ogystal, ymgynghorir ar farn plant a phobl ifanc y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnyn nhw trwy sesiynau gwybodaeth ac adborth wedi'u targedu a bwriedir cynhyrchu fersiynau o'r ddogfennaeth sy'n addas i blant a fydd hefyd ar gael yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

**(ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**  
Ddim yn berthnasol

**(iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? e.e. WESP, TAN20, CDLI, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion**  
Prosesau Ymgynghori Hanesyddol sy'n ymwneud ag Ysgolion Cymraeg a Saesneg

Arwyddion dwyieithog yn arferol ar draws holl gyfleusterau'r Cyngor i ddiogelu adeiladau at y dyfodol a chynyddu amlygrwydd y Gymraeg.



**7c. Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg** *e.e. statws, defnyddio gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd yn y gwaith/cymuned*

- (i) **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?**

**Cadarnhaol** – Trwy gynyddu capasiti Ysgol y Lawnt, gellir diwallu ceisiadau am addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth wneud hynny, mae capasiti i gwrdd â dewis iaith a hawliau'r unigolyn i dderbyn ei addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cadarnhaol** - Gellir diwallu dymuniad i gynnal unrhyw gyfarfodydd gyda'r ysgolion i drafod darpariaeth addysg trwy ddewis iaith y plentyn/teulu a'r hawl sydd ganddyn nhw i hyn o dan y Mesur Iaith ar hyn o bryd.

**Cadarnhaol** - Bydd holl arwyddion y safle newydd arfaethedig yn ddwyieithog.

**Cadarnhaol**- Ymgynghorir yn ddwyieithog gan dargedu pobl a grwpiau penodol oherwydd eu diddordeb personol yn y maes.

**Cadarnhaol** - Yr elfen Defnydd Cymunedol a fydd yn gyfle i hyrwyddo gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg i'r teulu cyfan a'r gymuned ehangach.

**Negyddol** - Potensial i'r gymuned Gymraeg ei hiaith orfod defnyddio'r Saesneg wrth ddefnyddio cyfleusterau a rennir. Ni fyddai unrhyw effaith yn ymwneud â chyflwyno'r cwricwlwm yn gyffredinol gan fod y ddwy ysgol yn parhau i fod yn endidau ar wahân ac mae ganddyn nhw eu hystafelloedd dosbarth/gofod addysgu/dyraniadau gofod allanol dynodedig eu hunain.

- (ii) **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**  
Darperir gwasanaethau derbynfa yn ddwyieithog.

Bydd yr holl ddogfennaeth a gyhoeddir ar wefan Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n ymwneud â'r cynnig yn cael ei chyfieithu trwy Dîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg y Cyngor.

Bydd arwyddion ar draws y safle cyfan yn ddwyieithog.

Gan weithio gyda'r ysgolion, byddai'r Cyngor yn annog y ddwy safle ysgol i ymrwmo i ddod at ei gilydd i gynnal digwyddiadau rhyngweithiol megis mabolgampau neu Eisteddfodau – nid i greu cystadleuaeth, ond i greu profiad dysgu ar y cyd, fel bod y plant yr ysgol cyfrwng Saesneg yn gweld manteision siarad Cymraeg.



**(iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? e.e. WESP, TAN20, CDLI, Cyfrifiad**  
*Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion*

Prosesau Ymgynghori Hanesyddol sy'n ymwneud ag Ysgolion Cymraeg a Saesneg. Arwyddion dwyieithog yn arferol ar draws holl gyfleusterau'r Cyngor i ddiogelu adeiladau at y dyfodol a chynyddu amlygrwydd y Gymraeg.

Ymgysylltiad Cychwynnol â Phenaethiaid Ysgol.

**7ch. Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg e.e. staff, trigolion ac ymwelwyr**

**(i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?**

**Cadarnhaol** – Trwy gynyddu capasiti Ysgol Y Lawnt, gellir derbyn cais am addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth wneud hynny, mae capasiti i fodloni dewis iaith a hawliau'r unigolyn i dderbyn ei addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cadarnhaol** - Wrth ystyried ehangu'r ddarpariaeth, bydd prosesau recriwtio a dethol yn adlewyrchu'r angen lleol ond hefyd yn cynorthwyo creu swyddi.

**Cadarnhaol** - Bydd y cynnig yn creu cyfleoedd pellach i bobl ddefnyddio'r Gymraeg drwy weithgareddau dydd i ddydd, gan gynnwys disgyblion, teuluoedd, athrawon, staff arlwygo, staff glanhau a'r gofalwr.

**Cadarnhaol** - Mae'r Cyngor yn rhagweithiol wrth gynorthwyo staff gyda chyrsgiau Cymraeg am ddim gyda rhai wedi'u teilwra i feysydd gwaith penodol. Byddai'r cynnig hwn yn cynorthwyo staff i gael mynediad at unrhyw ddarpariaeth yn ôl yr angen.

**(ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**

Mae'r Cyngor yn bwriadu lliniaru unrhyw wanhau yn y defnydd o'r Gymraeg yn y cyfleusterau a rennir cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl trwy ddefnyddio'r safle hwn fel archdeip. Byddwn ni'n archwilio'n llawn y cyfle i wneud Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yn ysgol enghreifftiol lle bydd yn defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol, trwy'r cynllun Cymraeg i Blant, ymgysylltu â chwrs Cymraeg i'r Teulu, gefeillio posibl yr ysgolion lle gellir rhannu diwylliannau'r ysgolion a'r posibilrwydd o sefydlu cynllun mentora'r Gymraeg lle mae disgyblion Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yn cael eu mentora ar gyfer gwersi Cymraeg gan eu cyfoedion o Ysgol y Lawnt. Rhoddir ystyriaeth hefyd i osod targedau yn unol ag Addysg Gymraeg: Papur Gwyn er mwyn gwella darpariaeth y Gymraeg mewn ysgolion a gynhelir nad ydyn nhw eisoes yn ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig. Cynhelir trafodaethau a chymorth pellach gyda'r ddwy ysgol wrth i'r cynnig fynd rhagddo i ymchwilio i'r opsiynau sydd ar gael i gynorthwyo'r dyhead hwn.

**(iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? e.e. WESP, TAN20, CDLI, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion**

Protocolau Recriwtio AD Cyfredol

Arfer gorau wrth gynorthwyo a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws ysgolion Cymru

Ymgysylltu â Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg y Cyngor

**7d. Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

**(i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?**

**Cadarnhaol** - Gellir darparu ar hyn o bryd ar gyfer unrhyw gyfarfodydd gyda'r ysgol i drafod darpariaeth addysg trwy ddewis iaith y plentyn/teulu a'r hawl sydd ganddyn nhw i hyn o dan Fesur y Gymraeg.

**Cadarnhaol** - Cynhyrchir yr holl ddogfennaeth gan gynnwys y wefan sy'n ymwneud â'r cynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg

**Cadarnhaol** - Bydd modd anfon a derbyn pob ymateb i ymgynghoriad a gwrthwynebiad yn Gymraeg a Saesneg gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.





- (ii) **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**  
Ddim yn berthnasol
- (iii) **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? e.e. WESP, TAN20, CDLI, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion**  
Gweithgareddau Ymgysylltu Hanesyddol a gyflawnwyd drwy'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu'r Cyngor.

**7dd. Ar ôl ystyried yr effeithiau uchod, sut mae'r cynnig wedi cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a b) o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

---

### **Angen a galw**

Mae cynnig Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yn ceisio cynorthwyo ymhellach yr agenda leol a chenedlaethol wrth ddatblygu safonau Cymraeg mewn addysg i arfogi Cymru ddwyieithog â gweithlu dwyieithog medrus, gan gynorthwyo gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg. Po fwyaf o ddisgyblion sy'n mwynhau addysg gynradd cyfrwng Cymraeg, yna'r mwyaf tebygol yw hi y byddan nhw'n mynychu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg a chael y cyfleoedd llawnaf i fyw eu bywydau yng Nghymru gan ddefnyddio'r Gymraeg.

### **Lleoliad**

Mae'r safle adleoli wedi'i adnabod o fewn y lleoliad presennol, mae wedi'i gynnig gan ei fod yn tarfu cyn lleied â phosibl ar drefniadau teithio presennol disgyblion ac yn parhau i fod yn ganolog i ddalgyrch presennol y ddwy ysgol. Yn ogystal, mae'r safle adleoli o fewn milltir i safleoedd presennol Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf ac yn agos iawn at gysylltiadau trafniadaeth a chanol Rhymni. Bydd y safle'n darparu cyfleusterau'r 21ain ganrif ar gyfer y ddwy ysgol tra hefyd yn rhoi'r cyfle i ddiogelu'r ddwy ddarpariaeth cyfrwng iaith yn yr ardal at y dyfodol gyda'r gallu i ymdopi â'r cynnydd a ragwelir yn nifer y disgyblion.

### **Dull a phroses**

Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yw'r broses ragnodedig ar gyfer symud y cynnig hwn yn ei flaen.

Cynigir y bydd adeilad pwrpas deuol newydd yn ymgorffori'r ddwy ysgol ac yn parhau i ddarparu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Rhaid pwysleisio y byddai'r ddwy ysgol yn aros yn endidau annibynnol, y dalgylchoedd presennol yn aros yr un fath a phob ysgol yn meddiannu eu hardaloedd addysgu eu hunain o fewn yr adeilad newydd gyda chyfleusterau cymunedol a rennir.

Bydd yr adeilad newydd yn ymgorffori cyfleusterau ysgol gynradd yn ogystal â darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbennig ar wahân ar gyfer pob ysgol, un gydag 8 lle ar gyfer cyfrwng Cymraeg a'r llall yn darparu 8 lle ar gyfer cyfrwng Saesneg.

Rhoddwyd ystyriaeth i bryderon posibl sy'n ymwneud â gwanhau'r Iaith Gymraeg lle gall y gymuned Gymraeg ei hiaith ddefnyddio'r Saesneg pan fyddan nhw i gyd yn dod at ei gilydd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn bwriadu lliniaru cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl trwy ddefnyddio'r safle hwn fel archdeip i fanteisio'n llawn ar y cyfle i wneud Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf ac ysgol enghreifftiol lle bydd yn defnyddio'r Gymraeg yn fwy, trwy gynllun Cymraeg i Blant, ymgysylltu. yng nghwrs Cymraeg i'r Teulu, gefeillio posibl yr ysgolion lle gellir rhannu diwylliannau'r ysgolion a'r posibilrwydd o gynllun mentora Cymraeg lle caiff disgyblion Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf eu mentora ar gyfer gwersi Cymraeg gan eu cyfoedion o Ysgol y Lawnt. Rhoddir ystyriaeth hefyd i osod targedau yn unol ag Addysg Gymraeg: Papur Gwyn er mwyn gwella darpariaeth y Gymraeg mewn ysgolion a gynhelir nad ydyn nhw eisoes yn ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig. Cynhelir trafodaethau a chymorth pellach gyda'r ddwy ysgol wrth i'r cynnig fynd rhagddo i ymchwilio i'r opsiynau sydd ar gael i gefnogi'r dyhead hwn.

## 8. Data a Gwybodaeth

*(Pa ddata neu dystiolaeth arall a ddefnyddiwyd i lywio gwaith datblygu'r cynnig? Gall tystiolaeth gynnwys canlyniad ymgynghoriadau blaenorol, cronfeydd data presennol, prosiectau peilot, adolygiad o gwynion a chanmoliaeth cwsmeriaid a/neu adborth defnyddwyr gwasanaeth eraill, data cenedlaethol a rhanbarthol, cyhoeddiadau academaidd ac adroddiadau ymgynghorwyr ac ati)*

**Data/tystiolaeth** *(Rhowch ddolen i'r adroddiad os yw'n briodol)*

- **Cyfrifiad 2011:** [Cyfrifiad 2011 - Swyddfa Ystadegau Gwladol \(SYG\)](#)
- **Arolwg defnydd o'r Gymraeg 2019-2020**  
[Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg: Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020 - Llyw Cymru](#)
- **Sefyllfa'r Gymraeg- Comisiynydd y Gymraeg**  
<https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/cyhoeddiadau-ac-adnoddau/sefyllfar-gymraeg-2016-20-adroddiad-5-mlynedd>
- **Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth**  
<https://www.llyw.cymru/data-am-y-gymraeg-or-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth>



- **Adroddiadau sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg**  
<https://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/sefydliadau-cyhoeddus/cyngor-a-chymorth/adroddiadau-sicrwydd>
- **Arolwg Cenedlaethol Cymru**  
<https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-diwylliant-ar-iaith-gymraeg>
- **Cymraeg 2050: adroddiadau blynyddol**  
<https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-adroddiadau-blynyddol>
- **Nodyn cyngor technegol (TAN) 20**  
<https://www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-20-cynllunio-ar-gymraeg>
- **Data iechyd a'r iaith Gymraeg**  
<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/General-Medical-Services/Pre-October-2009/GPWelshlanguageAbility-by-LocalHealthBoard-Year>
- **Data'r iaith Gymraeg a'r economi**  
[Clawr tasg a gorffen Cymraeg](#)

#### Canfyddiadau perthnasol allweddol

- Nifer y bobl a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol oedd 42,700 neu 24.3%
- Roedd 19.9% o'r boblogaeth yn gallu darllen Cymraeg, 18.4% yn gallu ysgrifennu Cymraeg, a 27.2% yn gallu deall Cymraeg llafar
- Amllder nifer y bobl a oedd yn siarad Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Caerffili bob dydd oedd 10.2%
- Dros y pum mlynedd diwethaf mae nifer y plant sy'n trosglwyddo o leoliadau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi amrywio o 72.29% i 99.43%.
- O'r holl boblogaeth ysgol gynradd mae 17.22% yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg gyda thua 97.75% o'r rhain yn trosglwyddo i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

#### Sefyllfa Bresennol (Ysgolion):

Ar hyn o bryd mae 11 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol gyda chapasiti cyfunol o bron i 3000 o leoedd.

#### Ysgol y Lawnt

- Cyfrwng Cymraeg
- Ysgol gynradd gymunedol
- Capasiti o 262 gan gynnwys darpariaeth gofal plant a meithrinfa.
- 18.4% o ddisgyblion PYDd, 15.6% ag AAA
- Wedi'i lleoli ar safle 1.4 hectar yn Rhymni heb unrhyw opsiwn i ehangu.
- Mae'r ysgol yn gweithredu o 1 prif adeilad a nifer o adeiladau modiwlaidd parod. Sefydlwyd y prif adeilad, rhestredig gan CADW, yn wreiddiol fel Ysgol



Gynradd Cyfrwng Saesneg yn 1900, gan agor yn 1955 fel yr Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg bresennol.

### Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf

- Cyfrwng Saesneg
- Ysgol gynradd gymunedol
- Capasiti o 210, sy'n cynnwys darpariaeth feithrin.
- 44.1% o ddisgyblion PYDd, 12.7% ag AAA
- Wedi'i lleoli o fewn safle 0.98 hectar yn Rhymni, ac yn ffinio'n agos ag eiddo preswyl.
- Yn meddiannu 2 Adeilad, bloc lau dros 2 lawr heb lifft

Mae Ysgol y Lawnt yn gwasanaethu Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI) Moriah 2 ac mae'r ardal hon yn safle 228 allan o 1,909 ac mae Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yn gwasanaethu ardaloedd Twyn Carno 2 sy'n safle 473 allan o 1,909 o ardaloedd yng Nghymru, lle mae 1 yw'r mwyaf difreintiedig a 1,909 yw'r lleiaf difreintiedig. Bydd y cynnig hwn yn gwasanaethu anghenion pob dysgwr, beth bynnag fo'u cefndir ac yn darparu mwy o ddilyniant addysg o 3 i 11 oed.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Cymraeg 2050 yn 2017, sy'n nodi gweledigaeth o gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Erbyn 2031, y nod ar gyfer Caerffili yw cael 26% o leoedd addysg cyfrwng Cymraeg yn ein blwyddyn 1. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y system addysg yn elfen allweddol o sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu Sgiliau Cymraeg ac ar gyfer creu siaradwyr newydd ac er mwyn gwneud cynnydd pellach i'r hyn a gyflawnwyd eisoes yn y Fwrdeistref Sirol, mae angen buddsoddiad pellach yn y seilwaith. Mae Ysgol y Lawnt wedi'i hadnabod fel safle strategol, i gynorthwyo niferoedd cynyddol yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gymdeithasol yn y Fwrdeistref Sirol.

### **Sut mae'r data/tystiolaeth wedi llywio'r cynnig hwn?**

Cyfarfu panel prosiect trawsadrannol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, y Gyfadran Addysg, Chwaraeon a Hamdden, Gwasanaethau Cynhwysiant, Gwasanaethau Eiddo, Cyllid ac Iechyd a Diogelwch i ystyried hyfywedd, addasrwydd ac ymarferoldeb y cynnig hwn .

Tasg y panel oedd:

- Paratoi ac arfarnu rhestr hir o opsiynau ar gyfer y ffrwd ariannu hon
- Gwerthuso a sgorio pob opsiwn o ran i ba raddau y mae pob opsiwn yn bodloni'r amcanion buddsoddi a'r ffactorau llwyddiant hanfodol a nodwyd ac a bwyswyd fel meysydd blaenoriaeth gan y Cyngor.
- Diystyru neu gario opsiynau ymlaen i'w hystyried ymhellach yn y rhestr fer yn seiliedig ar y dadansoddiad rhagarweiniol a'r sgôr i nodi opsiynau hyfyw.



- Argymell ffordd ymlaen a ffefrir

Bu'r panel hefyd yn ystyried sut y byddai opsiynau'n cydymffurfio â nifer o gyd-destunau Polisi Cenedlaethol a Lleol, er enghraifft amcanion buddsoddi rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, Cynllun Strategol Sero Net, Cymraeg 2050, Cynllun Corfforaethol y Cyngor, Amcanion Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor, Strategaeth Gofal Plant a Strategaeth EOTAS ac ati (*nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr*)

Roedd y data a'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma ac a amlinellwyd yn y ddogfen hon yn llywio'r broses o nodi'r ysgolion, y rhesymeg yn seiliedig ar y galw a'r addasrwydd a ragwelir a safle adeiladu hyfyw yn ardal Rhymni.

Wrth lunio rhestr fer o opsiynau a allai o bosibl gyflenwi'r cynnig, a'r ffordd ymlaen a ffefrir a fydd yn sail i'r broses Ymgynghori yn dilyn y broses Statudol a bennwyd gan God Trefniadaeth Ysgolion 2018, roedd y meini prawf allweddol yn cynnwys a fyddai'r cynnig yn gyraeddadwy, yn rhoi gwerth am arian, y Ffit Strategol a'r Ffit Addysgol cywir (gan gynnwys y Cynnig Iaith), a hefyd Hygyrchedd, Fforddiadwyedd a Chynaliadwyedd.

Bydd data a gwybodaeth bellach yn cael eu casglu fel rhan o'r broses Ymgynghori gan mai dim ond mewn partneriaeth ag Aelodau Wardiau Lleol, Penaethiaid Ysgol a Chadeirydd Llywodraethwyr y ddwy ysgol y mae'r cynnig hwn wedi cael ei adolygu'n fewnol. Bydd ymgysylltu pellach â Rhanddeiliaid yn galluogi ystyriaeth gydwybodol gyda golwg ar benderfyniad terfynol ar hyfywedd y cynnig hwn neu symud ymlaen ag unrhyw opsiynau amgen dichonadwy.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei hadolygu a'i diweddarau'n barhaus ar ddiwedd pob cam ymgynghori. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd ar gael ar ffurf copi caled ar gais. Bydd copi hefyd ar gael i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg ac Aelodau'r Cabinet fel rhan o'r broses benderfynu.

**A nodwyd unrhyw fylchau yn y dystiolaeth a'r data a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynnig hwn a sut y caiff y bylchau hyn eu llenwi?** *Gellir cynnwys manylion gweithgarwch ymgynghori pellach yn Adran 9.*

Ar y cam hwn o'r broses, nid oes unrhyw fylchau wedi'u nodi. Fodd bynnag, yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth i symud ymlaen i ymgynghoriad, bydd yr Asesiad Effaith Integredig hwn yn cael ei adolygu i gynnwys unrhyw elfennau ychwanegol a amlygwyd drwy'r broses ymgynghori statudol.

Pwrpas yr asesiad pellach hwn yw ystyried unrhyw wybodaeth bellach neu opsiynau amgen a gyflwynwyd drwy'r ymgynghoriad neu fel arall.

---

## 9. Ymgynghori

*(Mewn rhai achosion, mae gofyniad cyfreithiol i ymgynghori. Mewn achosion eraill, hyd yn oed os nad oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gall pobl ddisgwyl, yn ddilys ddigon, y cynhelir ymgynghoriad. Os penderfynwyd bod angen cynnal ymgynghoriad, mae'n rhaid dilyn Egwyddorion Gunning. Ystyriwch y Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu. Noder ei bod yn bosibl y bydd angen diweddarau hyn wrth i'r cynnig ddatblygu ac er mwyn atgyfnerthu'r asesiad.*

**Disgrifiwch yn gryno unrhyw ymgynghoriadau diweddar neu arfaethedig gan roi sylw arbennig i ddangos tystiolaeth bod Egwyddorion Gunning wedi'u dilyn.**

### **Â phwy yr ymgynghorwyd?**

Fel rhan o'r broses gymeradwyo i symud ymlaen i gyflwyniad Achos Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru ac Ymgynghoriad dilynol pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, cyflwynwyd adroddiad i Bwyllgor Craffu Addysg y Cyngor (21 Mehefin 2023) a'r Cabinet (28 Mehefin 2023).

Mae Uwch Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg y Cyngor wedi bod yn trafod yn gyson drwy gydol y broses ac wedi llywio'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Aseiad Effaith Integredig hwn.

Mae sesiynau ymgysylltu a briffio cychwynnol wedi'u cynnal gyda Phenaethiaid a Chadeirydd Llywodraethwyr y ddwy ysgol. Roedd yr adborth o'r ddwy sesiwn yn gadarnhaol er y cynhelir sesiynau pellach wrth i'r cynnig fynd rhagddo.

Mae'r Awdurdod wedi ystyried y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a sut mae'r cynigion yn cael effaith, yn unol â'r canllawiau.

Mae Ysgol Gynradd Cwm Glas ac Ysgol Gynradd Coed-y-brain yn cael eu dosbarthu fel ysgol gymunedol o dan y cod, ac nid oes unrhyw eithriadau yn yr achos hwn. Felly, cynhelir y broses ymgynghori fel y'i rhagnodir gan y cod i sicrhau lefel briodol o ymgysylltu wrth hysbysu rhanddeiliaid ac ymgynghori â nhw. Mae'r broses hon yn synergaid â Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu 2020-2025 y Cyngor a'r "Sbectwm Ymgysylltu".

**Pan ymgynghorwyd â nhw, a gynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y cam ffurfiannol ac a roddwyd digon o amser i ymgynghoreion ystyried ac ymateb?**

Rhagwelir ar hyn o bryd y byddai'r broses ymgynghori yn cael ei chynnal yn unol â'r amserlen ganlynol yn seiliedig ar gymeradwyaeth ar bob cam o'r broses:

<b>Ysgol Y Lawnt / Rhymni Uchaf Llinell Amser Cynnig Ysgol</b>	
Ymgynghoriad yn Agor	Dydd Iau 28 Medi 2023
<b>Craffu</b> (fel ymgynghorai)	Dydd Mawrth 17 Hydref 2023
Ymgynghoriad yn dod i ben	Dydd Iau 9 Tachwedd 2023
<b>Craffu</b> (ystyried yr Adroddiad Ymgynghori a chadarnhau cyhoeddi Hysbysiad Statudol)	Tuesday 28 Tachwedd 2023
<b>Cabinet</b> (ystyried Adroddiad Ymgynghori a chytuno i gyhoeddi Hysbysiad Statudol)	Dydd Mercher 13 Rhagfyr 2023
Hysbysiad Statudol / Cyfnod Gwrthwynebu yn Agor	Dydd Llun 8 Ionawr 2024
Diwedd y Cyfnod Hysbysiad Statudol / Gwrthwynebu	Dydd Llun 5 Chwefror 2024
<b>Craffu</b> (ystyried Adroddiad Gwrthwynebu)	Dydd Mawrth 12 Mawrth 2024
<b>Cabinet</b> (gwneud penderfyniad terfynol)	Dydd Mercher 20 Mawrth 2024

Mae'r llinellau amser wedi'u llunio i gydymffurfio â chanllawiau Ymgynghori Llywodraeth Cymru gan ganiatáu digon o amser i ymgynghoreion ystyried ac ymateb.

Yn amodol ar benderfyniad terfynol i symud ymlaen, byddai'r broses wedyn yn amodol ar y broses cymeradwyo Ceisiadau Cynllunio a Draenio Cynaliadwy sy'n cael ei harwain gan Dîm Gwasanaethau Eiddo profiadol y Cyngor.

Yn ogystal, bydd Achos Busnes Amlinellol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar y cam dylunio/tendro priodol yn unol â'r broses Achos Busnes 3 cham a ddiwygiwyd yn ddiweddar.

### **A roddwyd digon o wybodaeth i'r ymgynghoreion er mwyn iddynt wneud penderfyniad hyddysg ynghylch y cynnig?**

Rhoddyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Aelodau'r Cabinet yn amlinellu'r cynnig a'r ffordd ymlaen a argymhellir, sydd ar gael i'r cyhoedd:

Adroddiad Craffu –

<https://democracy.caerphilly.gov.uk/documents/s45490/Scrutiny%20Report%20for%20Sustainable%20Communities%20for%20Learning%20Phase%203.pdf?LLL=0>

Adroddiad Cabinet -



<https://democracy.caerphilly.gov.uk/documents/s45579/Cabinet%20Report%20for%20Sustainable%20Communities%20for%20Learning%20Phase%203%20FINAL.pdf?LLL=0>

O fis Awst 2023, mae Achos Amlinellol Strategol wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac wedi'i ystyried gan eu Grŵp Craffu ar Achosion Busnes sy'n aros i gael ei ystyried gan eu Panel Buddsoddi mewn Addysg.

#### **Beth oedd y canlyniadau allweddol?**

- Derbyniwyd cadarnhad i symud ymlaen gyda'r cynnig i gyflwyno achos busnes gan y Pwyllgor Craffu Addysg ar 20 Mehefin 2023 (9 o blaid, 0 Yn erbyn, 2 yn ymatal)
- Derbyniwyd cymeradwyaeth gan y Cabinet i symud ymlaen i gyflwyno achos busnes ac ymgynghoriad ffurfiol dilynol yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 ar 28 Mehefin 2023 (Unfrydol)
- Mae sesiynau ymgysylltu cychwynnol wedi cael eu cynnal gyda Phenaethiaid a Chadeirydd Llywodraethwyr y ddwy ysgol. Roedd yr adborth o'r ddwy sesiwn yn gadarnhaol er y cynhelir sesiynau pellach wrth i'r cynnig fynd rhagddo.

#### **A ystyriwyd canfyddiadau'r ymgynghoriad?**

Cynhelir dadansoddiad pellach ar ôl yr ymgynghoriad pan fydd y garfan ehangach o randdeiliaid fel y nodir yn y Cod, Estyn a gweithgareddau Ymgysylltu â Disgyblion wedi'u cynnal.

Mae'r broses ymgynghori yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a fydd yn cael eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ymgynghori.

Bydd yr adroddiad Ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a bydd yn cael ei ystyried pan fydd y Cabinet yn penderfynu ar y ffordd ymlaen.





## 10. Monitro ac Adolygu

**Sut y caiff y broses o roi'r cynnig ar waith, a'i effaith, eu monitro, gan gynnwys rhoi unrhyw ddiwygiadau ar waith?**

Bydd y rhaglen yn cael ei rheoli gan Fwrdd Strategaeth Ysgol sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ac Addysg, Pennaeth Trawsnewid, Pennaeth Cyllid Corfforaethol, Prif Swyddog Addysg, Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau, Pennaeth Gwasanaethau Eiddo, Rheolwr Cyllid Addysg, Rheolwr Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a Phrif Swyddog Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Ar lefel fwy lleol, bydd egwyddorion rheoli Prosiect yn cael eu dilyn drwy gydol y rhaglen. Bydd Tîm Rheoli Prosiect yn goruchwylio datblygiad a gweithrediad pob elfen gyfansoddol o'r prosiect o ddydd i ddydd, a fydd yn cynnwys ymgysylltu â'r Ysgol a'r Disgyblion, gan adrodd i'r Bwrdd ac uwch swyddogion perthnasol eraill, fel y bo'n briodol. Caiff prosiectau eu rheoli yn unol â PRINCE 2 a methodoleg rheoli prosiect perthnasol arall.

Mae personél allweddol wedi derbyn Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb a'r Gymraeg ac Asesu Effaith Integredig. Yn ogystal, mae'r Prif Swyddog Cymunedau Dysgu Cynaliadwy mewn deialog cyson gyda'r Uwch Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg i dderbyn arweiniad lle bo angen.

Ar lefel fwy lleol, bydd pob ysgol yn cadw ei threfniadau Corff Llywodraethol presennol, fodd bynnag, bydd cydbwyllgor yn cael ei sefydlu yn cynnwys cynrychiolwyr o'r ddwy ysgol i sefydlu telerau ac amodau ynglŷn â'r mecanweithiau gweithio sy'n ymwneud â chynnal a chadw, mynediad a pholisïau cyffredinol yn ymwneud â'r safle. yn ei gyfanrwydd.

**Beth yw'r trefniadau ymarferol ar gyfer y gwaith monitro?**

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod yn rhaid i'r sefydliad cyfan fod yn fedrus wrth wneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael. Cydnabyddir bod rheoli prosiect da yn elfen hanfodol o lwyddiant wrth fynd i'r afael â'n rhaglen waith strategol.

Dilynir egwyddorion rheoli prosiect (Prince2 ac MS Project) drwy gydol y rhaglen. Defnyddir egwyddorion rheoli rhaglen ar gyfer y rhaglen Band B pontiol a bydd y prosiect yn defnyddio profiad y tîm prosiect sy'n ymwneud â phrosiect Band A. Bydd hyn yn cychwyn gyda chynllun gweithredu Rhaglen a fydd yn diffinio amcanion, cyfrifoldebau, gweithredoedd dibynnol a risgiau'r rhaglen. Bydd yr olaf yn cynnwys dileu risg neu gamau lliniaru a pherchnogi risg. Bydd offeryn monitro rhaglen cyffredinol yn integreiddio ac yn cydlynu rhaglenni caffael, dylunio ac adeiladu a bydd yn amlygu dibyniaethau allweddol a'r llwybr critigol.



Yn ogystal â'r adroddiadau niferus y mae angen eu cynhyrchu yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a phrosesau gwneud penderfyniadau mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, mae'r model achos busnes 3 cham yn cael ei ddilyn i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar:

- y cyfiawnhad strategol a'r amcanion buddsoddi ar gyfer y prosiect (Achos Strategol)
- y rhesymeg y tu ôl i leihau'r rhestr hir yn rhestr fer o opsiynau a dadansoddiad o'r gwerthusiad opsiynau a buddion (Achos Economaidd)
- cost amlinellol y prosiect a manylion arian cyfatebol a phroffil gwariant (Achos Ariannol)
- y strwythur rheoli arfaethedig (Achos Rheoli)
- y strategaeth fasnachol (Achos Masnachol)

Yn amodol ar gymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol gan Lywodraeth Cymru, wrth i'r cynnig fynd rhagddo drwy'r prosesau ymgynghori, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda Thîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy y Cyngor a Swyddogion Llywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw am y cynnydd.

Unwaith y bydd penderfyniad terfynol wedi'i wneud ar y cynnig gan y Cabinet, pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu fel yr amlinellwyd, ar ôl cwblhau'r gwaith, caiff Adroddiad Terfynol Llywodraeth Cymru ei gynhyrchu, wedi'i ategu gan gostau prosiect llawn a dadansoddiad i weld a yw'r buddion cymunedol wedi'u cyflawni.

Mae'n ofynnol i dîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Caerffili fonitro prosiectau am eu pum mlynedd gyntaf trwy gwblhau gweithdai gwerthuso ar ôl symud i mewn gyda disgyblion a staff. Mae hyn hefyd yn cael ei adrodd i Lywodraeth Cymru ac mae'n cynorthwyo'r Cyngor wrth ystyried arfer gorau ac unrhyw feysydd i'w gwella ar brosiectau yn y dyfodol.

### **Sut y caiff canlyniadau'r gwaith monitro eu defnyddio i ddatblygu cynigion yn y dyfodol?**

Bydd Gwireddu Buddion, Gwerth Cymdeithasol ac Effaith ar ein hymrwymiaidau Datgarboneiddio a'r Gymraeg yn cael eu monitro gan dîm y prosiect a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac yn cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru trwy adroddiad terfynu'r prosiect a dogfennaeth berthnasol arall.

Bydd cyfarfodydd monitro rheolaidd yn cael eu cynnal drwy gydol datblygiad y cynnig a fydd fel arfer yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, Penaethiaid, Ymgynghorwyr Addysg, Gwasanaethau Eiddo, Gwasanaethau Arlwyyo, TGCh, Rheoli Traffig, Caffael ac Archwilio. Bydd rhanddeiliaid perthnasol hefyd yn cymryd rhan mewn gwerthusiad ôl-brosiect i adolygu canlyniadau er mwyn sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.



## Pryd y disgwylir i'r cynnig gael ei adolygu?

Rhagwelir ar hyn o bryd y byddai'r broses benderfynu fewnol yn cael ei chynnal yn unol â'r amserlen ganlynol yn seiliedig ar gymeradwyaeth ar bob cam o'r broses:

Ysgol Y Lawnt / Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf	
<b>Craffu</b> (fel ymgynghorai)	Dydd Mawrth 17 Hydref 2023
<b>Craffu</b> (ystyried yr Adroddiad Ymgynghori a chadarnhau cyhoeddi Hysbysiad Statudol)	Dydd Mawrth 28 Tachwedd 2023
<b>Cabinet</b> (ystyried Adroddiad Ymgynghori a chytuno i gyhoeddi Hysbysiad Statudol)	Dydd Mercher 13 Rhagfyr 2023
<b>Craffu</b> (ystyried Adroddiad Gwrthwynebu)	Dydd Mawrth 12 Mawrth 2024
<b>Cabinet</b> (gwneud penderfyniad terfynol)	Dydd Mercher 20 Mawrth 2024

Yn ogystal, mae'r Cyngor yn dilyn proses Achos Busnes 3 Cham Llywodraeth Cymru a bydd yn cyflwyno Achos Busnes Amlinellol ac Achos Busnes Llawn dilynol ar y camau priodol yn y broses.

Bydd yr Asesiad Effaith Integredig hwn yn cael ei gwblhau ar ddiwedd pob cam Ymgynghori i adlewyrchu unrhyw wybodaeth ychwanegol a gafwyd neu unrhyw opsiynau a allai fod yn ddewis amgen ymarferol i'r opsiwn a ffefrir sy'n cael ei gynnis.

## Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau y bydd hyn yn digwydd?

Mae Bwrdd y Rhaglen yn darparu cyfeiriad, rheolaeth a rheolaeth gyffredinol ar gyfer y Rhaglen, gan fod yn atebol am lwyddiant y Rhaglen.

Gofynnir i Aelodau Craffu ac Aelodau Cabinet adolygu'r cynnig a chadarnhau/gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid gweithredu'r cynnig i adleoli Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf i safle newydd pwrpasol gyda chyfleusterau a rennir.

Os caiff ei gymeradwyo, cyfrifoldeb Awdur/Awduron yr adroddiad hwn (neu swyddog enwebedig yn eu hadran) fydd sicrhau bod yr Asesiad Effaith Integredig a'r cynnig yn cael eu hadolygu a bod unrhyw gamau lliniaru yn cael eu dilyn a'u gweithredu.

---



## 11. Argymhelliad a Rheswm/Rhesymau (dilëwch fel y bo'n berthnasol)

- Rhoi'r cynnig ar waith gan ystyried y camau lliniaru a nodwyd

**A ydych wedi cysylltu â'r swyddogion perthnasol er mwyn cael cyngor ac arweiniad?**  
(dilëwch fel y bo'n berthnasol)

- Ydw

---

## 12. Rheswm/Rhesymau dros yr Argymhelliad

*(Isod, rhowch grynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig. Dylech gynnwys y crynodeb hwn yn yr adran "Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig" yn Nhempled yr Adroddiad Corfforaethol. Dylech gyhoeddi'r Asesiad Effaith Integredig ochr yn ochr â chynnig yr Adroddiad).*

Argymhelliad yr Asesiad Effaith Integredig hwn ac yn unol â'r prosesau a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yw bod yr Aelodau'n cadarnhau/cymeradwyo'r cynnig i:

- Adeoli Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf i safle newydd pwrpasol gyda chyfleusterau a rennir.

Cynigir codi adeilad pwrpas deuil newydd yn cynnwys Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf a fydd yn parhau i ddarparu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn y drefn honno.

Rhaid pwysleisio y byddai'r ddwy ysgol yn aros yn endidau annibynnol, y byddai'r dalgylchoedd presennol yn aros yr un fath ac y byddai pob ysgol yn meddiannu eu hardaloedd addysgu eu hunain o fewn yr adeilad newydd.

Lle mae'r adeilad newydd arfaethedig yn cynnwys cyfleusterau cymunedol a rennir, bydd y rhain yn cynnwys:

- ✓ Derbynfa ddwyieithog a rennir
- ✓ Neuadd hyblyg y gellir ei haddasu a'i rhannu i gynnwys amserlenni cwricwlwm
- ✓ Ystafelloedd cymunedol y gellir eu harchebu
- ✓ Man gweini gegin ar wahân fel bod darpariaeth ar gyfer prydau yn cael ei chyflwyno yn y cyfrwng iaith priodol ar gyfer pob ysgol.

Bydd cyfluniad y cyfleusterau hyn yn cael eu dylunio mewn modd a fydd yn galluogi defnydd annibynnol gan bob ysgol yn y drefn honno os oes angen er mwyn lleihau'r amharu ar weithgareddau cyfredol a darpariaeth iaith, gyda'r opsiwn i agor y rhain i'w defnyddio ar y cyd er mwyn darparu cydlyniant cymunedol ehangach.



Bydd yr adeilad newydd yn ymgorffori cyfleusterau ysgolion cynradd yn ogystal â gofal plant a darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbennig ar wahân ar gyfer pob ysgol, un gydag 8 lle ar gyfer cyfrwng Cymraeg a'r llall yn darparu 8 lle ar gyfer cyfrwng Saesneg.

Bydd yr adeilad ysgol newydd yn galluogi mwy o gapasiti ar gyfer y ddwy ysgol. Trwy reoli a gweithredu'r camau lliniaru a nodir yn y ddogfen hon yn ofalus, mae gan y cynnig y potensial i ddarparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer trochi Cymraeg, ac i hwyluso twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg a defnydd o'r Gymraeg a fydd yn cyfrannu at gyflawni nod Llywodraeth Cymru. miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Bydd safle'r ysgol gynradd newydd hefyd yn elwa o well gofod a chyfleusterau dysgu allanol o'i gymharu â'r ddau safle ysgol presennol, a fydd yn darparu amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol gyda chyfleusterau'r 21ain ganrif sy'n canolbwyntio ar ddysgu, hunan-werth a llesiant yr holl ddisgyblion.

Gan adeiladu ar y mandad Carbon Sero Net, mae ein cynnig wedi'i lunio i ddangos dyluniad arloesol a chydweithredol, gan gwmpasu'r amgylchedd adeiledig a'r dirwedd o'i amgylch mewn ffordd sy'n cyfoethogi bywyd beunyddiol disgyblion.

Mae'r wybodaeth a gasglwyd ac a adolygwyd fel rhan o'r AEI hwn yn dangos y potensial ar gyfer creu safle ysgol a rennir cynaliadwy ac arloesol a'r angen i fodloni'r galw, cydymffurfiad statudol a gwella'r ddarpariaeth ysgol gynradd bresennol yn Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf sydd i ddod. i gyfyngiadau presennol eu safle.

---



### 13. Rheoli Fersiynau

*(Dylech ddefnyddio'r Asesiad Effaith Integredig yn ystod camau cynnar y broses o ddatblygu'r cynnig. Gellir atgyfnerthu'r Asesiad Effaith Integredig wrth i amser fynd heibio er mwyn helpu llywio'r cynnig. Bydd yr adran 'Rheoli Fersiynau' yn gweithredu fel trywydd archwilio er mwyn dangos tystiolaeth o'r ffordd y mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi datblygu dros amser) (Ychwanegwch neu ddilëwch fersiynau fel y bo'n berthnasol)*

#### ➤ Fersiwn 1

**Awdur:-** Lisa Thomas

##### **Disgrifiad cryno o'r diwygiadau/diweddariad:-**

Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn wedi'i gynnal i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a nodir yn adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae ystyried yr effaith ar y ddarpariaeth Gymraeg wedi bod yn un o'r meysydd ffocws allweddol yn sgil cynnwys Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg yn y cynnig, ac mae Uwch Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg y Cyngor wedi llywio'r broses drwy ddeialog gyson hyd yma.

**Dyddiad Diwygio:- 28 Medi 2023**

#### ➤ Fersiwn 2

**Awdur:-** Andrea West

##### **Disgrifiad cryno o'r diwygiadau/diweddariad:-**

Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi'i adolygu i gynnwys unrhyw rai ychwanegol elfennau a amlygwyd drwy'r broses ymgynghori statudol a gynhaliwyd rhwng 8 Ionawr 2024 a 5 Chwefror 2024.

Pwrpas yr asesiad pellach hwn yw ystyried unrhyw wybodaeth bellach sydd wedi dod ymlaen drwy'r ymgynghoriad neu fel arall.

Nid oes angen diweddariadau pellach ar hyn o bryd.

**Dyddiad Adolygu:- 8 Chwefror 2024**

---



**Awdur yr Asesiad Effaith Integredig**

**Enw:- Lisa Thomas**

**Teitl Swydd:- Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - Prif Swyddog**

**Dyddiad:- 22 Awst 2023**

**Enw:- Andrea West**

**Teitl Swydd:- Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - Rheolwr**

**Dyddiad:- 22 Awst 2023**

**Cymeradwyaeth gan Bennaeth y Gwasanaeth**

**Enw:- Sue Richards**

**Teitl Swydd:- Pennaeth Trawsnewid a Cynllunio a Strategaeth Addysg**

**Llofnod:- *S. Richards***

**Dyddiad:- 24 Awst 2023**